

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
14/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/03/2017

Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU

Teitl: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016

Is-deitl: Adroddiad: Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU

Awduron: McAllister; McDonough

Cwmni: Beaufort Research

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: McAllister; McDonough, 2017. *Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016*

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 14/2017.

Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/wales-visitor-survey/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Robert Lewis

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

E-bost: robert.lewis@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

1.	Crynodeb gweithredol.....	2
2.	Cefndir ac amcanion.....	7
3.	Methodoleg.....	9
4.	Canfyddiadau'r ymchwil.....	12
4.1	Proffil ymwelwyr.....	12
4.2	Proffil ymweliadau	21
4.3	Cymhellion dros ymweld a gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt.....	24
4.4	Bodddhad â'r profiad cyffredinol	33
4.5	Ymwybyddiaeth o ddeunydd marchnata a gwybodaeth	47
4.6	Llety a ddefnyddiwyd a bwyta allan	53
5.	Casgliadau.....	61
	Atodiad I: Rhestr fanwl o leoliadau'r arolwg	
	Atodiad II: Holiadur arolwg Cam 1 (cyfweliadau wyneb yn wyneb).....	
	Atodiad III: Holiadur arolwg Cam 2 (cyfweliadau dros y ffôn)	

1. Crynodeb gweithredol

1.1 Cyflwyniad

Croeso Cymru, sef cangen Twristiaeth Llywodraeth Cymru, yw un o gyd-noddwyr nifer o astudiaethau sy'n cwmpasu Prydain gyfan y bwriedir iddynt bennu maint a gwerth twristiaeth. Er bod yr astudiaethau hyn yn cynhyrchu ystadegau swyddogol ar faint a gwerth twristiaeth ac yn darparu data defnyddiol ar nodweddion ymwelwyr, nid ydynt yn mesur boddhad ymwelwyr, sy'n elfen allweddol o'r gwaith o annog ymwelwyr i ddychwelyd.

Felly, mae Croeso Cymru yn comisiynu ei arolwg ymwelwyr mawr ei hun sy'n canolbwyntio ar Gymru, y bwriedir iddo asesu proffil, agweddau a lefelau boddhad ymwelwyr ac olrhain unrhyw newidiadau o ran y mesurau hyn dros amser. Cwmpesir tri chategori o ymwelwyr, sef: **ymwelwyr diwrnod o'r DU, ymwelwyr sy'n aros o'r DU ac ymwelwyr tramor**

Y dull gweithredu a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2016 oedd:

1. Cam 1: Arolwg wyneb yn wyneb:

Casglwyd gwybodaeth am broffil ymwelwyr a'u hymweliad mewn cyfweiliad wyneb yn wyneb byr â sampl o ymwelwyr 16 oed a throsodd mewn 72 o leoliadau twristiaeth ledled Cymru. Cynhaliwyd cyfanswm o 6,652 o gyfweiliadau:

- 2,959 ag ymwelwyr diwrnod o'r DU
- 2,892 ag ymwelwyr sy'n aros o'r DU
- 801 ag ymwelwyr tramor.

Gwnaed yr holl waith maes rhwng 11 Mehefin a 30 Medi 2016.

2. Cam 2: Arolwg dilynol dros y ffôn:

Cynhaliwyd cyfweiliad hirach a manylach dros y ffôn â sampl o ymwelwyr y cyfweiliad â hwy yng Ngham 1, ar ôl i'w hymweliad / gwyliau ddod i ben, er mwyn casglu adborth ar eu hymweliad cyfan. Cynhaliwyd cyfanswm o 3,464 o gyfweiliadau yng Ngham 2:

- 1,504 ag ymwelwyr diwrnod o'r DU
- 1,641 ag ymwelwyr sy'n aros o'r DU
- 319 ag ymwelwyr tramor.

Cynhaliwyd pob cyfweiliad gan ddefnyddio technoleg CATI (Cyfweld dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur). Gwnaed gwaith maes rhwng 7 Gorffennaf a 3 Tachwedd 2016.

1.2 Canfyddiadau Allweddol

Proffil ymwelwyr:

Ni fu fawr ddim newid ym mhroffil ymwelwyr sy'n aros o'r DU ers 2013; mae'r mwyafrif yn byw y tu allan i Gymru (86%) ac maent fwyaf tebygol o fod rhwng 35 a 54 oed ac maent yn perthyn i ddosbarthiadau cymdeithasol ABC1. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed yn 2016, gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer yr ymwelwyr dros 55 oed.

Mae Cymru yn parhau i ddenu cyplau a theuluoedd, fel y gwelwyd yn 2013. Mae amllder ymweliadau yn parhau i fod yn gyson â chanfyddiadau 2013, gyda chyfrannau cyfartal, fwy neu lai, yn ymweld unwaith yn ystod y tair blynedd diwethaf (31%), rhwng dwywaith a thair gwaith (31%) neu bedair gwaith neu fwy (38%).

Proffil ymweliadau:

Cyrchfan gwyliau byr yw Cymru yn bennaf yn hytrach na chyrchfan prif wyliau; fel y gwelwyd yn 2013, daeth ychydig dros hanner yr ymwelwyr sy'n aros o'r DU i Gymru ar gyfer gwyliau byr (55%), tra daeth tua dau o bob pum ymwelydd (41%) i Gymru ar gyfer gwyliau hirach; dywedodd 25% o'r holl ymwelwyr mai eu hymweliad â Chymru oedd eu prif wyliau ar gyfer y flwyddyn.

Cymhellion dros ymweld a gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt:

Ar y cyfan, roedd y rhesymau dros ymweld yn gyson â chanlyniadau 2013, a'r cymhellion allweddol oedd cefn gwlad a thirwedd Cymru ac ymweld â lleoedd ac atyniadau. Roedd y gweithgareddau mwyaf poblogaidd y cymerwyd rhan ynddynt fel a ganlyn:

Tabl 1: Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd y cymerwyd rhan ynddynt yng Nghymru POB ymwelydd sy'n aros o'r DU (Sylfaen = 1,641)	%
Ymweld â'r traeth	42
Gweld atyniadau cyffredinol	38
Ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol	38
Ymweld â pharciau gwledig / parciau coedwigoedd	31
Cerdded mwy na dwy filltir	24
Ymweld ag amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth	24
Ymweld ag atyniad bywyd gwyllt / gwarchodfa natur	16
Ymweld â gerddi	15
Ymweld ag atyniad sy'n ymwneud â natur	15
Ymweld â safle crefyddol	14
Gwyllo bywyd gwyllt	13
Ymweld ag atyniad treftadaeth ddiwydiannol	12
Ymweld â rheilffordd ager / rheilffordd â golygfeydd	10
Ymweld ag oriel neu arddangosfa gelf	8
Ymweld ag atyniad sy'n ymwneud ag anifeiliaid	8
Cerdded llai na dwy filltir	6

Bodddhad â'r profiad cyffredinol:

Yn gyffredinol, mae ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn fodlon iawn ar eu hymweliad â Chymru, gan roi sgôr gyfartalog o 9.2/10 ar gyfer *Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef* (sy'n debyg i 2013). Ansawdd yr amgylchedd naturiol sy'n cael y sgôr uchaf o blith yr holl agweddau penodol a werthuswyd (9.0/10). Tywydd gwael yw'r prif ffactor sy'n cyfrannu at sgorau bodddhad is.

Dywedodd ychydig dros hanner yr ymwelwyr sy'n aros o'r DU (53%) fod Cymru wedi rhagori ar eu disgwyliadau (sy'n cynyddu i 70% ymhlith ymwelwyr newydd). At hynny, dywedodd dros 9 o bob 10 ymwelydd sy'n aros o'r DU yr hoffent ymweld â Chymru eto yn y dyfodol (95%) a byddai bron bob un yn argymhell Cymru i eraill fel lle i ymweld ag ef (97%).

Ymwybyddiaeth o ddeunydd marchnata a gwybodaeth:

Roedd dau o bob tri ymwelydd sy'n aros o'r DU wedi gweld deunydd hysbysebu neu farchnata neu ohebiaeth ar gyfer Cymru cyn eu hymweliad; dywedodd y rhan fwyaf o'r rhain eu bod wedi gweld hysbysebion ar y teledu (41% o'r ymwelwyr).

Defnyddiodd y mwyafrif o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU rai ffynonellau gwybodaeth i gynllunio eu hymweliad â Chymru (78%); ffynonellau ar-lein (megis gwefannau ac apiau) a ddefnyddiwyd amlaf (71%; o gymharu â 57% yn 2013), tra defnyddiwyd ffynonellau all-lein (megis tywyslyfrau a thaflenni) gan tua un o bob pedwar (27%; o gymharu â 18% yn 2013). Roedd yr ymwelwyr wedi gwneud llai o ddefnydd o wybodaeth yn ystod eu taith – ychydig o dan 6 o bob 10 a ddefnyddiodd unrhyw ffynonellau gwybodaeth tra roeddent yng Nghymru, gyda chymbwysedd gwell rhwng ffynonellau ar-lein ac all-lein (sef 35% a 38% yn y drefn honno).

Llety a ddefnyddiwyd a bwyta allan:

Defnyddiwyd amrywiaeth o wahanol fathau o lety yng Nghymru gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2016; gwestai a llety hunanddarpar oedd y mathau mwyaf poblogaidd, gyda phob un ohonynt yn cael eu defnyddio gan un o bob pum ymwelydd.

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymwelwyr sy'n archebu llety drwy gysylltu'n uniongyrchol â darparwr y llety (gwnaeth 44% hynny yn 2016 o gymharu â 70% yn 2013), er mai hwn yw'r dull mwyaf cyffredin o archebu'r llety neu'r pecyn. Ar y llaw arall, mae'r defnydd o wefannau archebu trydydd parti megis booking.com ac expedia wedi cynyddu (i 25% ar hyn o bryd o gymharu ag 8% yn 2013). Ar y cyfan, roedd ymwelwyr yn gadarnhaol am y llety y buont yn aros ynddo, gyda bron ddau o bob tri yn dweud eu bod yn fodlon iawn arno yn gyffredinol (63%).

Gwnaeth dros wyth o bob 10 ymwelydd sy'n aros o'r DU fwyta allan yn ystod eu hymweliad â Chymru (81%), sy'n gynnydd sylweddol o gymharu â 2013 (60%). Roedd lefelau bodddhad â gwahanol agweddau ar y profiad o fwyta allan yng Nghymru yn amrywio, gyda'r lefel bodddhad uchaf yn cael ei nodi am wasanaeth (nododd 49% eu bod yn fodlon iawn) a'r lefel bodddhad isaf yn cael ei nodi am y

defnydd o gynnyrch lleol neu gynnyrch o Gymru ar y fwydlen (dim ond 24% a nododd eu bod yn fodlon iawn).

Casgliadau:

- Er bod proffil oedran ymwelwyr yn gogwyddo tuag at y grŵp oedran 35-54, bu cynnydd yng nghyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed a ddaeth i Gymru yn 2016, gyda gostyngiad cyfatebol yng nghyfran yr ymwelwyr hŷn (55 oed a throsodd). Mae hyn i'w briodoli, o bosibl, i'r gwaith y mae Croeso Cymru yn ei wneud i farchnata twristiaeth gweithgareddau a hyrwyddo gwyliau gweithgareddau i ymwelwyr iau, y bwriedir iddo gynhyrchu refeniw o wyliau byr ychwanegol yng Nghymru, er ei bod yn bosibl bod y penderfyniad i ychwanegu safleoedd gweithgareddau awyr agored at y lleoliadau cyfweld (e.e. Bike Park Wales) wedi dylanwadu ar hyn yn rhannol. Mae'n bosibl bod ymgyrch Blwyddyn Antur 2016, a oedd yn anelu at ysbrydoli marchnadoedd targed i feddwl yn wahanol am Gymru ac annog pobl i ystyried Cymru fel cyrchfan antur hefyd wedi dylanwadu ar y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr iau – 'Pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed, dim plant' a ddangosodd y lefelau uchaf o ymwybyddiaeth o'r ymgyrch. Cafodd bron un o bob tri o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2016 eu cymell i ymweld â Chymru er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu weithgareddau chwaraeon a dywedodd ychydig dros un o bob 10 mai dyna eu prif reswm dros ddod i Gymru. At hynny, mae cyfran yr ymwelwyr sy'n aros yn 2016 a gymerodd ran mewn chwaraeon a gweithgareddau antur megis beicio mynydd yn ystod eu hymweliad wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â 2013.
- Er bod ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn rhoi sgôr uchel iawn i Gymru fel lle i ymweld ag ef, mae'r astudiaeth yn nodi rhai meysydd lle y gellid gwella'r profiad a gwahaniaethau barn rhwng gwahanol rannau o'r wlad. Rhoddwyd sgorau islaw wyth allan o 10 i lendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus, ac ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer pobl ag anabledd, sy'n awgrymu bod lle i wella ar bob un o'r agweddau hyn. Ar ben hynny, hoffai'r rhai a oedd yn llai na brwdfrydig ynghylch eu hymweliad â Chymru (sef y 4% a roddodd sgôr islaw wyth allan o 10 ar gyfer Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef) weld (ymhlith pethau eraill) pobl fwy croesawgar / cyfeillgar a chanol trefi mwy bywiog sy'n cynnig cyfleusterau siopa gwell.
- Mae Cymru yn perfformio'n dda o ran naws am le, gyda'r mwyafrif helaeth o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn ystyried bod rhyw agwedd ar eu hymweliad yn cynnwys nodweddion a odd yn unigryw i Gymru neu na allent fod wedi'u canfod yn unman arall (yn enwedig safleoedd treftadaeth ac atyniadau ymwelwyr Cymru). Ac eto, er bod y rhan fwyaf o ymwelwyr yn cytuno eu bod am i'w hymweliad â Chymru gynnig profiad sy'n unigryw i Gymru na allent ei gael yn unman arall, mae gwahaniaeth barn ynglŷn â pha mor bwysig ydyw eu bod yn gweld neu'n clywed y Gymraeg yn ystod eu hymweliad; roedd hyn yn bwysicach i ymwelwyr tramor nag ymwelwyr o'r DU.

- Mae arolwg 2016 yn nodi bod cyfran yr ymwelwyr sy'n aros sy'n bwyta allan yn ystod eu hymweliad â Chymru wedi cynyddu, sy'n gysylltiedig, o bosibl, â'r gyfran uwch o unigolion yn nosbarthiadau ABC1 sy'n ymweld â Chymru a sector lletygarwch bywiog. Mae canfyddiadau ymwelwyr o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig o ran bwyd a diod hefyd wedi gwella, ar y cyfan. Fodd bynnag, un maes lle nad yw'r galw yn cael ei ateb yw cynnig bwyd lleol neu fwyd o Gymru ar fwydlenni tafarndai a bwytai (yn enwedig yn rhanbarth Caerdydd, prifddinas Cymru) – nododd bron un o bob 10 ymwelydd sy'n aros a fwytodd allan tra ei fod ar wyliau yng Nghymru ei fod yn anfodlon ar agwedd hon ac mae hefyd yn cael ei grybwyll yn ddigymell gan rai ymwelwyr lle maes i'w wella. Byddai cynnwys mwy o gynnyrch lleol ar fwydlenni yn cael ei groesawu gan ymwelwyr sy'n aros a byddai'n gwella profiad yr ymwelydd â Chymru.
- Mae'r mwyafrif helaeth o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn casglu gwybodaeth am eu hymweliad â Chymru ymlaen llaw, gyda llawer o'r gweithgarwch casglu gwybodaeth hwn yn cael ei gyflawni ar-lein. Dros y tair blynedd diwethaf bu cynnydd sylweddol yn y defnydd y mae ymwelwyr yn ei wneud o sianeli gwybodaeth ar-lein wrth gynllunio eu hymweliad â Chymru, sy'n tanlinellu pwysigrwydd cynyddol darparu gwybodaeth glir a hygyrch ar-lein er mwyn helpu i gynllunio gwyliau a rhoi ysbrydoliaeth i ymwelwyr o ran yr hyn y dylent ei wneud a'i weld pan fyddant yng Nghymru.
- Fodd bynnag, mae ffynonellau gwybodaeth yn llai pwysig yn ystod yr ymweliad - nid yw bron pedwar o bob 10 ymwelydd sy'n aros o'r DU yn defnyddio unrhyw wybodaeth tra eu bod ar wyliau yng Nghymru. Ymhlith y rhai sy'n gwneud hynny, er bod y rhan fwyaf o ymwelwyr bellach yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth ar-lein cyn yr ymweliad, mae cryn nifer o ymwelwyr yn dal i ddefnyddio gwybodaeth all-lein pan fyddant ar wyliau. Yn benodol, ymddengys fod gan daflenni rôl i'w chwarae o hyd yn ystod yr ymweliad, a chawsant eu defnyddio fel ffynhonnell o wybodaeth gan tua un o bob pum ymwelydd sy'n aros tra eu bod ar wyliau yng Nghymru yn 2016. Hefyd, ychydig o ddefnydd a wneir o bamffledi a Chanolfannau Croeso cyn yr ymweliad. Fodd bynnag, mae ymwelwyr yn gwneud mwy o ddefnydd o Ganolfannau Croeso pan fyddant yng Nghymru.
- Tuedd glir arall yw'r defnydd cynyddol o wefannau archebu trydydd parti, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2013 (yn hytrach na bod ymwelwyr yn archebu llety yn uniongyrchol drwy gysylltu â darparwr y llety). Mae hyn yn tanseilio pa mor bwysig ydyw bod gweithredwyr llety yng Nghymru yn sicrhau bod ganddynt bresenoldeb cryf ar wefannau o'r fath yn y dyfodol.

2. Cefndir ac amcanion

2.1 Y sefyllfa

Croeso Cymru, sef cangen Twristiaeth Llywodraeth Cymru, yw un o gyd-noddwyr nifer o astudiaethau sy'n cwmpasu Prydain gyfan y bwriedir iddynt bennu maint a gwerth twristiaeth. Cynhelir Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS), Arolwg Ymweliadau Diwrnod Prydain Fawr (GBDVS) ac Arolygon Teithwyr Rhyngwladol (IPS) bob blwyddyn gyda data yn cael eu cyflwyno bob mis neu bob chwarter.

Er bod yr astudiaethau hyn yn cynhyrchu ystadegau swyddogol ar faint a gwerth twristiaeth ac yn darparu data defnyddiol ar nodweddion ymwelwyr, nid ydynt yn mesur boddhad ymwelwyr, sy'n elfen allweddol o'r gwaith o annog ymwelwyr i ddychwelyd. Mae ymwelwyr y mae eu hymweliad yn rhagori ar eu disgwyliadau yn fwy tebygol o ddychwelyd yn y dyfodol. Gall ymwelwyr bodlon hefyd fod yn hyrwyddwyr brwdfrydig, gan fod tafod leferydd, argymhelliad personol ac arolygon cwsmeriaid ar-lein yn ymddangos yn gyson yng ngwaith ymchwil Croeso Cymru fel elfen bwysig iawn o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch gwyliau.

Mae hefyd yn glir bod y modd y darperir gwybodaeth i ymwelwyr cyn ac yn ystod eu hymweliad yn newid oherwydd y cyfoeth o ffynonellau digidol sydd ar gael. Felly, mae'n hanfodol bwysig meithrin gwell dealltwriaeth o'r defnydd y mae ymwelwyr yn ei wneud o wybodaeth a'r ffordd y mae'n effeithio ar eu mwynhad o'u hymweliad.

2.2 Yr angen am ymchwil

Felly, comisiynodd Croeso Cymru arolwg ymwelwyr mawr yn 2016 er mwyn diweddarau'r canfyddiadau ers ton 2013 o'r gwaith ymchwil ac olrhain unrhyw newidiadau ym mhroffil, agweddau a boddhad ymwelwyr. Cwmpaswyd tri chategori o ymwelwyr, sef: **ymwelwyr diwrnod o'r DU, ymwelwyr sy'n aros o'r DU ac ymwelwyr tramor** Defnyddir canlyniadau'r gwaith ymchwil i ddarparu meincnodau ar gyfer strategaethau datblygu a marchnata Croeso Cymru.

2.3 Nodau ac amcanion

Roedd nod cyffredinol arolwg ymwelwyr 2016 fel a ganlyn:

Dod o hyd i wybodaeth berthnasol am ymwelwyr â Chymru, eu profiad a'u hagweddau tuag at Gymru, a'r gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt a'r cyfleusterau a ddefnyddiwyd ar eu hymweliad â Chymru, yn ogystal â'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i gynllunio eu hymweliad.

Amcanion allweddol yr arolwg, ar draws ei ddau gam, oedd:

- a. Proffilio ymwelwyr â Chymru (demograffeg, oedran, cylch oes, maint y parti a rhyw a phrofiad ymwelwyr o ymweld â Chymru)
- b. Dadansoddi'r cymhellion dros ddewis Cymru, megis canfyddiadau, profiadau blaenorol, agosrwydd ac ati
- c. Casglu manylion am yr ymweliad presennol – e.e. lleoliad, gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt, y math o drafnidiaeth a ddefnyddiwyd i deithio i Gymru ac yng Nghymru, y llety y buwyd yn aros ynddo (os yw'n gymwys)
- d. Ymchwilio i agweddau a chael sgorau mewn perthynas â phrofiad ymwelwyr â Chymru, gan gynnwys yn systematig ar gyfer amrywiaeth o gyfleusterau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn ogystal â 'naws am le' a materion cysylltiedig.
- e. Cymharu profiadau cyn yr ymweliad ag agweddau tuag at y profiad gwirioneddol
- f. Ymchwilio i ffactorau megis a oedd ymwelwyr yn bwriadu dychwelyd i Gymru yn y dyfodol a pha mor debygol ydoedd y byddent yn argymhell Cymru i eraill
- g. Proffilio'r defnydd o wybodaeth wrth gynllunio ymweliadau

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y canfyddiadau ar gyfer ymwelwyr sy'n aros o'r DU – mae adroddiadau ar wahân ar gael ar gyfer ymwelwyr diwrnod o'r DU ac ymwelwyr tramor.

3. Methodoleg

3.1 Trosolwg o'r dull gweithredu

Cyflawnwyd y gwaith ymchwil mewn dau gam:

1. Cam 1: Arolwg wyneb yn wyneb:

Casglwyd gwybodaeth ddemograffig gyffredinol megis oedran, rhyw, dosbarth cymdeithasol, ethnigrwydd, anabledd, preswylfa a chyfansoddiad y parti a oedd yn ymweld â Chymru mewn arolwg wyneb yn wyneb byr, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o ddeunydd hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer Cymru (cyn yr ymweliad). Ceir holiadur Cam 1 yn Atodiad II.

2. Cam 2: Arolwg dilynol dros y ffôn:

Cynhaliwyd cyfweiliad hirach a manylach dros y ffôn â sampl o ymwelwyr y cyfwelwyd â hwy yng Ngham 1, ar ôl i'w hymweliad ddod i ben. Casglodd adborth, ar ôl yr ymweliad, ar eu profiad yn gyffredinol, gan gynnwys canfyddiadau o Gymru fel cyrchfan i dwristiaid, pa mor debygol ydoedd y byddent yn ailymweld â Chymru ac a fyddent yn argymhell Cymru i ffrindiau a pherthnasau. Ceir holiadur Cam 2 yn Atodiad III.

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016 yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer camau blaenorol o'r gwaith ymchwil. Yn flaenorol, roedd cam wyneb yn wyneb yr arolwg yn cynnwys y mwyafrif o'r cwestiynau am ddemograffeg, gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt a phrofiad yr ymwelydd (ac fe'i cynhaliwyd gyda thua 3,000 o ymwelwyr). Roedd y cyfweiliad dilynol dros y ffôn, ar ôl yr ymweliad, yn fyrrach ac roedd yn cwmpasu boddhad ymwelwyr, bwriadau i ailymweld â Chymru ac argymhell Cymru i eraill (ac fe'i cynhaliwyd gyda thua 750 o ymwelwyr).

Yn 2016 ailgynlluniwyd yr arolwg fel ei fod ar ffurf:

- a) cyfweiliad Cam 1 byr a oedd yn canolbwyntio ar gasglu data profilio gyda sampl llawer mwy (**6,652 o ymwelwyr**); creodd hyn ffrâm sampl o rifau ffôn ar gyfer Cam 2 hefyd
- b) cyfweiliad Cam 2 hirach a gasglodd wybodaeth fanylach am weithgareddau, profiad, boddhad a chanfyddiadau o Gymru, ar ôl yr ymweliad, gan tua hanner y rhai y cyfwelwyd â hwy yn y cam cyntaf (**3,464 o ymwelwyr**).

Felly, mae arolwg 2016 yn darparu maint sampl llawer mwy a chadarnach nag a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol, tra'n sicrhau (hyd y gellir) bod modd cymharu'r cwestiynau yn yr arolwg hwn â'r cwestiynau a ofynnwyd am fesurau allweddol mewn arolygon blaenorol.

3.2 Cam 1: Arolwg wyneb yn wyneb

Cynhaliwyd cyfanswm o 6,652 o gyfweiliadau ag ymwelwyr 16 oed a throsodd mewn 72 o leoliadau twristiaeth ledled Cymru. Ceir dadansoddiad llawn o'r holl leoliadau a gynhwyswyd yn yr ymchwil yn Atodiad I.

Mae nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd â phob un o'r tair cynulleidfa darged fel a ganlyn:

- Ymwelwyr diwrnod o'r DU: 2,959 o gyfweiliadau
- Ymwelwyr sy'n aros o'r DU: 2,892 o gyfweiliadau
- Ymwelwyr tramor: 801 o gyfweiliadau.

Er mwyn bod yn gymwys i gael eu cyfweld, roedd angen i ymwelwyr fodloni un o'r meini prawf canlynol:

- Yn ymweld fel rhan o wyliau, **gan aros** yng Nghymru oddi cartref
- Yn ymweld fel rhan o wyliau i ymweld â ffrindiau neu berthnasau, **gan aros** oddi cartref
- Ar **ymweliad diwrnod nad yw'n un arferol** yng Nghymru / â Chymru.

Ni chafodd unrhyw un a oedd yn ymweld â Chymru ar ymweliad diwrnod arferol (e.e. siopa), ar fusnes neu er mwyn astudio ei gynnwys yn sampl yr arolwg. At hynny, roedd angen i ymwelwyr hefyd fod yn barod i gymryd rhan yn arolwg ffôn dilynol Cam 2 a rhoi rhif ffôn dilys y gellid ei ddefnyddio i gysylltu â hwy, er mwyn cymryd rhan.

Pennwyd cwtâu yn ôl rhanbarth yng Nghymru¹ a math o ymwelydd. Roedd cwtâu rhanbarthol yn gymesur er mwyn sicrhau bod proffil y sampl yn cynrychioli'r holl ymwelwyr â Chymru o ran treiddiad daearyddol. Roedd cwtâu yn ôl y math o ymwelydd yn anghymesur er mwyn sicrhau bod ymwelwyr o bob un o'r tair cynulleidfa wedi'u cynrychioli'n briodol yn sampl yr arolwg. Ar y cam dadansoddi, cafodd y data eu pwysoli yn ôl rhanbarth er mwyn mireinio unrhyw anghydbwysedd rhwng y sampl a phroffil rhanbarthol ymwelwyr.

Gwnaed y mwyafrif helaeth o'r gwaith maes ar gyfer Cam 1 rhwng 11 Mehefin a 30 Medi 2016 (gydag un sifft gyfweld yn cael ei chynnal ar 15 Hydref). Cynigiwyd yr opsiwn o gynnal y cyfweiliad yn Gymraeg i bob ymwelydd; cynhaliwyd 641 o gyfweiliadau yn Gymraeg.

¹ Gogledd Cymru: Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam
Canolbarth Cymru: Ceredigion, Powys

De-orllewin Cymru: Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe

De-ddwyrain Cymru: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg

3.3 Cam 2: Cyfveliadau dros y ffôn

Cynhaliwyd cyfanswm o 3,464 o gyfveliadau dros y ffôn yng Ngham 2 ag ymwelwyr a oedd wedi cymryd rhan yng Ngham 1 (cyfradd drosglwyddo o 52% yn gyffredinol). Nodir isod nifer y cyfveliadau a gynhaliwyd â phob un o'r tair cynulleidfa:

- Ymwelwyr diwrnod o'r DU: 1,504 o gyfveliadau (cyfradd drosglwyddo o 51%)
- Ymwelwyr sy'n aros o'r DU: 1,641 o gyfveliadau (cyfradd drosglwyddo o 57%)
- Ymwelwyr tramor: 319 o gyfveliadau (cyfradd drosglwyddo o 40%).

Cynhaliwyd y cyfveliadau gan ddefnyddio technoleg CATI (Cyfweld dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur). Pennwyd cwtâu yn ôl math o ymwelydd er mwyn sicrhau bod sampl gadarn o gyfveliadau yn cael ei chynnal â phob un o'r tair cynulleidfa darged. Ar y cam dadansoddi, cafodd y data eu pwysoli yn ôl rhanbarth er mwyn mireinio unrhyw anghydbwysedd a sicrhau bod sampl yr arolwg yn gynrychioliadol o ran treiddiad ymwelwyr rhanbarthol.

Yn achos ymwelwyr tramor, trefnwyd bod sifftiau cyfweld yn cael eu cynnal yn gynnar yn y bore ac yn hwyr y nos (yn ychwanegol at sifftiau dydd / nos safonol) er mwyn ystyried gwahaniaethau mewn amser.

Gwnaed y maes gwaith ar gyfer Cam 2 rhwng 7 Gorffennaf a 3 Tachwedd 2016. Cynhaliwyd y cyfveliadau mewn dau gam gan sicrhau bod o leiaf bythefnos wedi mynd heibio rhwng cyfveliadau Cam 1 a chyfveliadau Cam 2, er mwyn caniatáu digon o amser i ymwelwyr sy'n aros o'r DU / ymwelwyr tramor ddychwelyd adref ar ôl eu hymwelriad â Chymru.

Cynigiwyd yr opsiwn o gynnal y cyfweiliad yn Gymraeg i ymwelwyr a oedd yn siarad Cymraeg (a nodwyd yng Ngham 1); cynhaliwyd 55 o gyfveliadau yn Gymraeg.

3.4 Yr opsiwn i bartneriaid gymryd rhan yn yr arolwg

Cynigiwyd y cyfle i Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Twristiaeth a Sefydliadau Twristiaeth ledled Cymru gymryd rhan yn Arolwg Ymwelwyr 2016, drwy gomisiynu naill ai:

- Cyfveliadau mewn lleoliadau samplu ychwanegol (nad oeddent wedi'u cynnwys ym manau samplu craidd Croeso Cymru) yng Ngham 1
- Cyfveliadau ychwanegol ym manau samplu craidd Croeso Cymru yng Ngham 1
- Cwestiynau ychwanegol ar gyfer manau samplu newydd / craidd yng Ngham 2.

Dewisodd cyfanswm o 12 partner gymryd rhan yn y gwaith ymchwil, gan ychwanegu 17 o leoliadau cyfweld ychwanegol at y 55 o leoliadau craidd Croeso Cymru. Ceir manylion lleoliadau cyfweld lle roedd partneriaid wedi cyfrannu at yr arolwg yn Atodiad I.

4. Canfyddiadau'r ymchwil

4.1 Proffil ymwelwyr

Mae Tabl 2 isod yn cynnwys gwybodaeth ddemograffig allweddol a gasglwyd yn 2016 a 2013.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn byw yn Lloegr (84%) gyda dim ond 14% yn byw yng Nghymru a 3% yn yr Alban / Gogledd Iwerddon; ni fu fawr ddim newid yn y cyfrannau hyn ers 2013.

Er bod cyfran yr ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed wedi cynyddu yn 2016 (18% o gymharu â thua 12% yn 2013), mae cynrychiolaeth y bobl iau sy'n ymweld â Chymru yn dal i fod yn is na chyfran yr oedolion iau yn y DU yn gyffredinol (31%²). Mewn cyferbyniad, mae cynrychiolaeth y grŵp oedran 35-54 yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd y boblogaeth (41% o gymharu â thua 34% ar gyfer y DU). Gan edrych ar ranbarth cartref, daw cyfran sylweddol uwch o ymwelwyr iau (20%) a chynrychiolaeth is o bobl hŷn 55 oed a throsodd o Loegr (39%) o gymharu â Chymru (13% 16-34; 47% 55+).

At hynny, mae gogwydd mawr o hyd tuag at unigolion yn nosbarthiadau ABC1³ ym mhroffil yr ymwelwyr, sy'n fwy byth ymhlith ymwelwyr o Loegr. At hynny, mae cyfran yr ymwelwyr mwy cefnog yn cynyddu (72% yn 2016 o gymharu â 67% yn 2013). Mae unigolion yn nosbarthiadau ABC1 yn ffurfio 53% o boblogaeth y DU.

Tabl 2: Gwybodaeth ddemograffig am ymwelwyr sy'n aros o'r DU	Tueddiadau Blynnyddol		Rhanbarth Cartref 2016	
	2016 %	2013 %	Cymru %	Lloegr %
Tarddiad yr ymwelydd				
Cymru	14	16	100	-
Lloegr	84	84	-	100
Yr Alban / Gogledd Iwerddon	3		-	-
Rhyw				
Dynion	46		45	47
Merched	54		55	53
Oedran				
16-34 oed	18	12	13	20
35-54 oed	41	41	40	42
55 oed a throsodd	40	46	47	39

² Ffynhonnell: Cyfrifiad SYG 2011

³ Pennir dosbarth economaidd-gymdeithasol unigolyn drwy nodi teitl swydd â rôl unigolyn a diffinnir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:

AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol neu broffesiynol uwch a chanolradd

C1: Galwedigaethau goruchwyllo, galwedigaethau clercaidd a galwedigaethau rheoli, gweinyddol neu broffesiynol ar lefel iau

C2: Gweithwyr llaw crefftus

DE: Gweithwyr llaw lled-grefftus a heb sgiliau, pensïynwyr y wladwriaeth, gweithwyr dros dro a gweithwyr ar y graddau isaf, pobl ddi-waith sydd ond yn cael budd-daliadau'r wladwriaeth

Tabl 2: Gwybodaeth ddemograffig am ymwelwyr sy'n aros o'r DU (parhad)	Tueddiadau Blynnyddol		Rhanbarth Cartref 2016	
	2016 %	2013 %	Cymru %	Lloegr %
Gradd economaidd-gymdeithasol				
ABC1	72	67	68	73
C2DE	27	31	33	27
Gwrthod ateb	<1	2	-	<1
Siaradwr Cymraeg				
Rhugl	4		28	1
Heb fod yn rhugl	2		10	1
Yn ddi-Gymraeg	93		63	98
Ethnigrwydd				
Gwyn	96	97	99	95
Ddim yn wyn / arall	4	3	<1	4
Gwrthod ateb	<1	-	<1	<1

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 1 2016 (2,892); Cam 2 2016 (1,641); 2013 (1,618); Cymru 2016 (383); Lloegr 2016 (2,441).

DS mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu. Mae blychau tywyll yn dynodi nad oedd data cymharu 2013 ar gael.

Dengys Tabl 3 drosodd ddemograffeg allweddol ymwelwyr yn ôl y 13 o ranbarthau marchnata yng Nghymru.


Dylid nodi, er yr ymddengys fod siaradwyr Cymraeg rhugl yn llawer mwy niferus yn Nyffrynnoedd Gwy ac Wysg o gymharu â phob rhan arall o Gymru, mae'r ffaith bod cyfweiliadau wedi'u cynnal yn y Fenni yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol wedi cael dylanwad mawr ar hyn.

Tabl 3: Gwybodaeth ddemograffig yn ôl rhanbarth marchnata (Dangosir y sylfaen mewn cromfachau)	CYMRU GYFAN (1,641)	Caerdydd, prifddinas Cymru (199)	Sir Gaerfyrddin (175)	Ceredigion / Bae Ceredigion (208)	Arfordir Treftadaeth Morgannwg (84)	Ynys Môn (182)	Llandudno a Bae Colwyn (165)	Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog (305)	Gogledd-ddwyrain Cymru (172)	Sir Benfro (191)	Mynyddoedd ac Arfordir Eryri (383)	Cymoedd De Cymru (208)	Bae Abertawe (328)	Dyffrynnoedd Gwry ac Wysg (292)
Tarddiad yr ymwelydd														
Cymru	14	10	27	23	12	6	4	9	5	31	9	12	7	23
Lloegr	84	86	72	76	81	91	92	90	94	69	91	84	91	74
Yr Alban / Gogledd Iwerddon	3	4	<1	1	7	3	5	2	2	1	1	3	2	3
Rhyw														
Dynion	46	42	41	57	29	47	37	52	37	47	51	51	46	48
Merched	54	58	59	43	71	53	63	48	63	53	49	49	54	52
Oedran														
16-34 oed	18	22	10	9	27	26	18	18	13	17	19	29	21	9
35-54 oed	41	45	33	38	38	50	39	44	33	41	55	36	42	35
55 oed a throsodd	40	34	57	54	34	23	44	39	54	42	26	32	37	54
Gradd economaidd-gymdeithasol														
ABC1	72	74	81	62	62	71	55	78	63	69	76	71	75	79
C2DE	27	26	18	39	36	29	45	22	38	31	23	30	26	20
Gwrthod ateb	<1	1	1	-	1	-	-	-	-	-	-	-	-	1
Siaradwr Cymraeg														
Rhugl	4	5	6	3	1	1	1	1	1	3	1	<1	1	18
Heb fod yn rhugl	2	3	5	3	4	1	2	3	1	6	3	1	-	2
Yn ddi-Gymraeg	93	93	89	93	95	97	96	96	99	91	96	98	99	80
Ethnigrwydd														
Gwyn	96	89	96	98	98	95	97	95	98	97	96	96	95	98
Ddim yn wyn / arall	4	12	2	1	2	4	3	5	2	3	4	2	5	1
Gwrthod ateb	<1	-	1	<1	-	1	1	-	-	-	-	<1	1	1

Fel yn 2013, mae gan gyfran gymharol fach o grwpiau ymwelwyr sy'n aros o'r DU (gan gynnwys ymatebwyr ac unrhyw un arall yn eu grŵp) sy'n dod i Gymru gyda salwch hirdymor neu anabledd (16%), a'r un mwyaf cyffredin yw symudedd diffygiol (7%), wedi'i ddilyn gan salwch hirdymor (6%). Mae nifer y grwpiau o ymwelwyr ag anabledd yn unol ag ystadegau'r DU (17% ledled y DU⁴).

Yng Ngham 2, gofynnwyd i'r holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU wneud sylwadau ar ba mor hygyrch oedd Cymru i bobl ag anabledd, gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10 lle roedd 1 yn dynodi anfodlon iawn a 10 yn dynodi bodlon iawn. Ar ôl tynnu'r rhai nad oeddent yn gallu rhoi barn, rhoddodd bron i ddau o bob tri sgôr o 5 i 8 allan o 10 (63%) i Gymru. Dim ond cyfran fach o'r ymwelwyr oedd yn aros o'r DU (7%) a roddodd sgorau negyddol o 1 i 4, tra rhoddodd 30% sgorau uchel (9 i 10).

Roedd lefelau boddhad yn uwch ymhlith yr ymwelwyr hynny â salwch / anabledd cyfyngus nag oeddent ymhlith y rhai heb gyflwr o'r fath (gyda 34% o'r grŵp cyntaf yn rhoi sgôr o 9 i 10 o gymharu ag 28% yn achos yr ail grŵp). Nodwyd y lefelau boddhad uchaf ymhlith y rhai â symudedd diffygiol, lle y rhoddodd 38% sgôr o 9 i 10 i Gymru am hygyrchedd – gweler Ffigur 1 isod.




⁴ Ffynhonnell: Cyfrifiad SYG 2011

Edrychodd cwestiwn newydd a ychwanegwyd yn 2016 ar nifer yr ymwelwyr sy'n aros o'r DU sy'n dod ag anifeiliaid anwes gyda nhw ar eu hymweliad â Chymru; teithiodd 15% gydag anifeiliaid anwes, gyda bron pob un ohonynt yn dod â chi/cŵn gyda nhw (14%).

Yng Ngham 2, gofynnwyd i'r holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU wneud sylwadau ar faint o groeso y mae Cymru yn ei roi i anifeiliaid anwes, gan ddefnyddio'r un raddfa o 1 i 10 ag a welwyd yn flaenorol. Lle roedd ymwelwyr yn gallu gwneud sylwadau rhoddwyd sgôr uchel i Gymru am yr agwedd hon, gyda thua hanner yn rhoi sgôr o 9 i 10 (49%) a dim ond 5% yn rhoi sgôr negyddol (1 i 4).

Roedd lefelau boddhad yn uwch ymhlith y rhai a oedd yn teithio gydag anifail anwes / anifeiliaid anwes o gymharu â'r rhai a oedd yn teithio hebddynt (54% ar gyfer y grŵp cyntaf o gymharu â 47% ar gyfer yr ail grŵp a roddodd sgôr o 9 i 10) – gweler Ffigur 2 isod.



Mae Cymru yn parhau i ddenu cyplau a theuluoedd; fel y gwelwyd yn 2013, daw'r rhan fwyaf o ymwelwyr i Gymru fel cwpl (38%), tra bod tri o bob 10 (30%) yn ymweld â Chymru gyda phlant (mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn dod â phlant bach gyda nhw). Mae 7% arall yn ymweld fel grŵp teuluol heb blant tra bod 12% yn dod gyda ffrindiau. Mae pob grŵp ymwelwyr yn cynnwys 3.5 unigolyn, ar gyfartaledd (2.8 oedolyn a 0.8 plentyn). Roedd meintiau grwpiau ar gyfer grwpiau ymwelwyr o Gymru ychydig yn fwy na'r rhai o Loegr (3.7 o gymharu â 3.5), ac roeddent yn cynnwys ychydig yn fwy o blant.

Gwelwyd y nifer fwyaf o gyplau yng Ngheredigion / Bae Ceredigion (63% o gymharu â 38% yn gyffredinol), tra gwelwyd y cyfrannau uchaf o deuluoedd â phlant bach ar Ynys Môn ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg (42% a 40% yn y drefn honno o gymharu â 26% yn gyffredinol).

Roedd lefelau ailymweld yn uchel, ac roedd 69% o ymwelwyr sy'n aros o'r DU wedi ymweld â Chymru (neu'r ardal lle y cyfwelwyd â nhw, yn achos ymwelwyr â Chymru) fwy nag unwaith yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae tua un o bob tri o'r rhain wedi ymweld â Chymru rhwng dwy a thair gwaith, tra bod bron un o bob pump yn ymwelwyr rheolaidd iawn, gan deithio i Gymru saith gwaith neu fwy yn ystod y tair blynedd diwethaf. Dim ond un o bob tri ymwelydd sy'n aros o'r DU sydd ond wedi ymweld â Chymru unwaith (31%); nifer gyfartalog yr ymweliadau yn ystod y tair blynedd diwethaf yw 4.5 (o gymharu â 5.2 yn 2013). Fel y gellid disgwyl, roedd ymwelwyr o Gymru yn llawer mwy tebygol o fod yn ymwelwyr dychwel (92% o gymharu â 66% o Loegr) ac roedd wedi ymweld â Chymru yn amlach yn ystod y tair blynedd diwethaf (7.4 gwaith o gymharu â 4.1).

Roedd ymwelwyr â Chanolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog yn fwy tebygol o ddychwelyd yn rheolaidd, gyda 22% wedi ymweld â Chymru 10 gwaith neu fwy yn ystod y tair blynedd diwethaf (5.7 ymweliad ar gyfartaledd o gymharu â 4.5% yn gyffredinol). Mewn cyferbyniad, ymwelwyr â Chaerdydd, prifddinas Cymru a oedd wedi ymweld â Chymru y nifer leiaf o weithiau, gyda 5% yn ymweld â Chymru 10 gwaith neu fwy (3.0 ymweliad ar gyfartaledd yn ystod y tair blynedd diwethaf) – gweler Tabl 4 drosodd.

Tabl 4: Math o grŵp a pha mor aml yr ymwelwyd â Chymru	Tueddiadau Blynyddol		Rhanbarth Cartref 2016	
	2016 %	2013 %	Cymru %	Lloegr %
Y math o barti a oedd yn ymweld â Chymru				
Cwpl	38	42	37	38
Teulu â phlant bach	26	26	28	26
Ffrindiau	12	7	12	11
Teulu heb blant	7	5	5	8
Teulu â phlant hŷn	4	8	9	7
Ar eich pen eich hun	4	5	4	4
Teulu â phlant hŷn ac iau	4	4	3	4
Grŵp wedi'i drefnu /cymdeithas wedi'i threfnu	1	3	1	1
Arall	<1	1	<1	<1
Gwrthod ateb	1	-	<1	1
Nifer yr oedolion, ar gyfartaledd	2.8		2.8	2.8
Nifer y plant, ar gyfartaledd	0.8		0.9	0.7
Cyfanswm y bobl, ar gyfartaledd	3.5		3.7	3.5
Pa mor aml yr ymwelwyd â Chymru yn ystod y tair blynedd diwethaf				
Unwaith	31	30	8	34
2-3 gwaith	31	30	26	31
4-6 gwaith	18	14	26	17
7-10 gwaith	7	6	9	6
Mwy na 10 gwaith	13	19	30	10
Ddim yn gwybod	<1	2	<1	1
CYFARTALEDD	4.5	5.2	7.4	4.1

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 1 2016 (2,892); Cam 2 2016 (1,641); 2013 (1,618); Cymru 2016 (208); Lloegr 2016 (1,402). DS mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu. Mae blychau tywyll yn dynodi nad oedd data cymharu 2013 ar gael.

Segmentu


Cafodd ymwelwyr sy'n aros o'r DU eu dosbarthu ymhellach yn rhai sy'n perthyn i bum grŵp, neu segmentau, allweddol gyda'r nodweddion canlynol:

- Ymwelwyr iau (rhwng 16 a 34 oed), dim plant yn eu grŵp ymwelwyr;
- Grŵp ôl-deulu (rhwng 35 a 54 oed), dim plant yn eu grŵp ymwelwyr;
- Grŵp ôl-deulu (55 oed a throsodd), dim plant yn eu grŵp ymwelwyr;
- Ymwelwyr o unrhyw oedran, gyda phlant yn eu grŵp ymwelwyr, gradd gymdeithasol ABC1;
- Ymwelwyr o unrhyw oedran, gyda phlant yn eu grŵp ymwelwyr, gradd gymdeithasol C2DE.

Dengys Ffigur 3 isod fod y gyfran fwyaf o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn perthyn i'r grŵp 'Ôl-deulu 55 oed a throsodd' (35%), wedi'i ddilyn gan 'Unigolion yn nosbarthiadau cymdeithasol ABC1 sy'n teithio gyda phlant' (27%).

Mae un o bob chwe ymwelydd yn perthyn i'r grŵp 'Ôl-deulu rhwng 35 a 54 oed' (16%), tra bod ychydig dros un o bob 10 yn perthyn i'r grŵp 'Ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, dim plant'. Y grŵp sydd â'r gynrychiolaeth isaf ymhlith ymwelwyr sy'n aros o'r DU yw'r grŵp 'Unigolion yn nosbarthiadau cymdeithasol C2DE sy'n teithio gyda phlant' (10%).

Mae grwpiau o Gymru yn fwy tebygol o fod yn grwpiau 'Ôl-deulu 55 oed a throsodd' (37%) neu 'Unigolion yn nosbarthiad cymdeithasol C2DE sy'n teithio gyda phlant' (12%) o gymharu â'r rhai o Loegr (34% a 10% yn y drefn honno). I'r gwrthwyneb, mae grwpiau o Loegr yn fwy tebygol o berthyn i'r categorïau 'Ôl-deulu rhwng 35 a 54 oed' (17%) ac 'Ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, dim plant' (13%) na'r rhai o Gymru (15% ac 8% yn y drefn honno) - gweler Ffigur 3 isod.



Dengys Tabl 5 drosodd ymwelwyr wedi'u rhannu'n segmentau yn ôl y 13 o ranbarthau marchnata yng Nghymru ac mae'n dangos bod cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr yn y grŵp 'Ôl-deulu 55 oed a throsodd' yn ymweld â Chanolbarth Cymru, Gogledd Cymru ac ar hyd y ffin ddeheuol. Mae mwy o grwpiau â phlant (dosbarthiadau cymdeithasol ABC1 ac C2DE) yn ymweld ag Ynys Môn, tra bod y grŵp 'Ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, heb blant' yn dangos lefel uwch o dreiddiad yng Nghymoedd De Cymru - mae'n bosibl bod y penderfyniad i gynnwys Bike Park Wales ymhlith lleoliadau'r arolwg yn 2016 wedi effeithio ar hyn.


Tabl 5: Segmentu yn ôl rhanbarth marchnata (Dangosir y sylfaen mewn cromfachau)	CYMRU GYFAN (1,641)	Caerdydd, prifddinas Cymru (199)	Sir Gaerfyrddin (172)	Ceredigion / Bae Ceredigion (208)	Arfordir Treftadaeth Morgannwg (82)	Ynys Môn (178)	Llandudno a Bae Colwyn (164)	Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog (304)	Gogledd- ddwyrain Cymru (172)	Sir Benfro (191)	Mynyddoedd ac Arfordir Eryri (371)	Cymoedd De Cymru (206)	Bae Abertawe (323)	Dyffrynnoedd Gwy ac Wysg (291)
Grŵp ôl-deulu 55 oed a throsodd, dim plant	35	30	51	51	27	17	34	33	45	38	20	27	32	49
Teithio gyda phlant, ABC1	27	26	30	14	29	45	24	32	17	27	37	28	23	22
Grŵp ôl-deulu rhwng 35 a 54 oed, dim plant	16	19	9	23	12	11	13	15	17	14	21	12	19	18
Iau, rhwng 16 a 34 oed, dim plant	12	19	4	5	12	12	9	11	8	12	12	23	15	7
Teithio gyda phlant, C2DE	10	7	5	8	20	16	20	10	13	9	11	11	11	4

4.2 Proffil ymweliadau

4.2.1 Math o wyliau

Cyrchfan gwyliau byr yw Cymru yn bennaf yn hytrach na chyrchfan prif wyliau; fel yn 2013, daeth ychydig dros hanner yr ymwelwyr sy'n aros o'r DU i Gymru am wyliau byr (55%), tra daeth tua dau o bob pum ymwelydd sy'n aros o'r DU (41%) i Gymru ar gyfer gwyliau hirach; dywedodd 25% o'r holl ymwelwyr mai eu hymweliad â Chymru oedd eu prif wyliau yn y flwyddyn.

Fel y gellid disgwyl, mae ymwelwyr sy'n aros o Loegr yn fwy tebygol o fod ar eu prif wyliau neu wyliau eilaidd (42%) o gymharu ag ymwelwyr o Gymru (33%), tra bod ymwelwyr o Gymru yn fwy tebygol o fod ar ymweliad byr (63% o gymharu â 54% yn achos Lloegr) – gweler Ffigur 3 isod.



Ymwelwyr â Mynyddoedd ac Arfordir Eryri a Sir Benfro oedd fwyaf tebygol o fod ar eu prif wyliau (41% a 39% yn y drefn honno), tra mai ymwelwyr ag Arfordir Treftadaeth Morgannwg a Chaerdydd, prifddinas Cymru a oedd fwyaf tebygol o fod ar wyliau byr (73% a 69% yn y drefn honno).

At hynny, roedd ymwelwyr a oedd yn teithio gyda phlant yn tueddu i fod yn cymryd eu prif wyliau yng Nghymru:


- Teithio gyda phlant, ABC1 = 37%
- Teithio gyda phlant, C2DE = 34%

Roedd yr ymwelwyr hynny a ddaeth i Gymru ar ymweliad byr yn tueddu i berthyn i'r 'Grŵp iau, rhwng 16 a 34 oed, dim plant (69%)' a'r 'grŵp ôl-deulu, rhwng 35 a 54 oed, dim plant' (67%).

4.2.2 Ymweld â lleoedd eraill

Roedd tua un o bob deg ymwelydd sy'n aros o'r DU wedi aros mewn gwlad arall heblaw Cymru, ar ei ymweliad diweddar (9%). Lloegr oedd y wlad roedd yr unigolion hyn fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â hi ochr yn ochr â Chymru (6%), gydag 1% yn nodi'r Alban a llai nag 1% yn nodi Iwerddon.

Ymhlith y rhai a oedd wedi aros mewn gwledydd eraill ar eu hymweliad, roedd Cymru yn fwy tebygol fod wedi cael ei nodi fel eu prif gyrchfan gwyliau nag unrhyw wlad arall (gyda thraean yn dweud hyn), er bod 16% wedi bod yn teithio o amgylch y DU ac Ewrop heb unrhyw brif gyrchfan – gweler Ffigur 5 isod.




4.2.3 Trafnidiaeth

Teithiodd y mwyafrif helaeth o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU (a oedd yn byw y tu allan i Gymru) i Gymru mewn car (84%). Dim ond 7% a ddefnyddiodd drafnidiaeth gyhoeddus (6% ar y trênn; 1% ar fws neu goets gyhoeddus); mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â data 2013.

Yn yr un modd, teithiodd 84% i'r lleoliad lle y cyfwelwyd â nhw mewn car. Defnyddiodd ychydig o dan 1 o bob 10 drafnidiaeth gyhoeddus (6% ar y bws neu mewn coets, 3% ar y trênn), tra bod 7% yn gallu cerdded yno.

Rhoddodd yr ymwelwyr y cyfwelwyd â nhw sgôr i ansawdd y drafnidiaeth gyhoeddus hefyd, gan roi sgôr o 7.6 allan o 10, ar gyfartaledd, ar gyfer ansawdd ac argaeledd trafniadaeth gyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r sgôr hon yn is na'r sgôr a roddwyd i agweddau eraill ar yr ymweliad (a nodir yn adran 4.4) – gweler Ffig 6 isod.



4.3 Cymhellion dros ymweld a gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt

4.3.1 Rhesymau dros ymweld â Chymru


Mae cefn gwlad a thraethau Cymru yn parhau i ddenu ymwelwyr sy'n aros o'r DU, gyda thua dau o bob tri ymwelydd yn dod i Gymru i fwynhau'r dirwedd (67%); ar gyfer 32% o ymwelwyr, hwn oedd eu prif reswm dros ymweld â Chymru (er bod y ganran wedi gostwng o 42% yn 2013).

“Rydym yn mynd yno oherwydd yr arfordir hardd, cefn gwlad prydferth”

Daeth ychydig dros hanner (54%) i Gymru er mwyn ymweld â lleoedd, safleoedd hanesyddol a chrefyddol ac atyniadau (gyda 17% yn dweud mai hwn oedd eu prif gymhelliant), tra daeth bron i draean (32%) er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu weithgareddau chwaraeon.

“Mae Cymru yn lle mor hardd - rydym wir yn mwynhau ymweld â'r wlad, yn enwedig y safleoedd hanesyddol a'r digwyddiadau.”

“Mae'n wych! Mae llawer o bethau i'w gwneud, yn enwedig yn yr awyr agored.”




Dengys Tabl 6 drosodd y rhesymau dros ymweld yn ôl y 13 o ranbarthau marchnata yng Nghymru ac mae'n nodi'r ffactorau cymhellol gwahanol sy'n dylanwadu ar ymweliadau â rhannau gwahanol o Gymru yn glir. Dylid nodi, fodd bynnag, y bydd natur y lleoliadau cyfweld a gynhwyswyd yn yr arolwg ar gyfer pob ardal yn dylanwadu ar y ffactorau hyn yn ogystal â'r gwahanol bethau sydd gan bob ardal i'w cynnig i dwristiaid.

Er enghraifft, daeth nifer uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr i Fynyddoedd ac Arfordir Eryri er mwyn mwynhau cefn gwlad; nid yn unig y mae'r ardal hon yn enwog am ei harddwch naturiol, ond roedd llawer o'r lleoliadau cyfweld mewn cyrchfannau golygfaol (e.e. Llanberis, y Bala, Beddgelert, Dolgellau) neu o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ei hun. Hefyd, yn Nyffrynnoedd Gwy ac Wysg, bydd y ffaith bod cyfweliadau wedi'u cynnal yn y Fenni yn ystod wythnos yr Eisteddfod wedi dylanwadu'r fawr ar y gyfran uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr a oedd wedi mynd i ddigwyddiad.

Noder y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn, y bwriedir iddynt ddarparu ffigurau dangosol yn hytrach na rhai absoliwt gan fod y ffigurau sylfaenol mor fach.

Tabl 6: Rhesymau dros ymweld yn ôl rhanbarth marchnata (Dangosir y sylfaen mewn cromfachau)	CYMRU GYFAN (1,641)	Caerdydd, prifddinas Cymru (118)	Sir Gaerfyrddin (104)	Ceredigion / Bae Ceredigion (117)	Arfordir Treftadaeth Morgannwg (45)	Ynys Môn (101)	Llandudno a Bae Colwyn (90)	Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog (170)	Gogledd- ddwyrain Cymru (110)	Sir Benfro (110)	Mynyddoedd ac Arfordir Eryri (236)	Cymoedd De Cymru (110)	Bae Abertawe (168)	Dyffrynnoedd Gwy ac Wysg (162)
Mwynhau cefn gwlad	67	47	68	78	60	74	61	70	71	70	82	48	76	68
Ymweld â lleoedd / atyniadau	54	68	49	53	56	50	49	48	48	43	57	52	45	62
Gweithgareddau awyr agored	32	15	34	32	18	30	17	37	31	33	51	34	42	27
Ymweld â ffrindiau a pherthnasau	26	31	20	10	58	25	11	26	28	16	15	37	30	28
Gwyliau byr mewn dinas	16	47	10	10	29	9	11	10	10	11	11	14	12	14
Siopa	13	25	11	14	20	15	16	12	14	9	13	9	7	17
Mynd i ddigwyddiad / cyngerdd	9	7	7	3	9	9	3	3	9	12	8	8	5	22
Hel achau	1	-	7	1	2	1	-	3	2	1	<1	-	1	2
Mynd i sba	1	1	1	1	-	2	-	-	2	-	-	1	1	-

Gan edrych ar y rhesymau dros ymweld yn ôl segment grŵp, mae gwahaniaethau penodol o ran y cymhellion dros ymweld yn dod i'r amlwg. Er enghraifft, unigolion sy'n perthyn i'r categori 'C2DE â phlant' sydd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â Chymru er mwyn mwynhau cefn gwlad (78%), tra mai'r rhai sy'n perthyn i'r categori 'Ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, dim plant' sydd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored (44%). At hynny, y grŵp hwn sydd leiaf tebygol o fod wedi dod i Gymru er mwyn ymweld â lleoedd ac atyniadau penodol (47%) – gweler Ffigur 8 isod am ragor o fanylion.



O ymchwilio ymhellach i'r rhesymau pam mae ymwelwyr newydd, ymwelwyr sy'n ymweld am y tro cyntaf ers talwm ac ymwelwyr dychwel, gwelir bod ymwelwyr dychwel yn tueddu i fod yn ymweld â ffrindiau a pherthnasau (30%), sy'n uwch na'r cyfrannau ar gyfer ymwelwyr newydd (16%) ac ymwelwyr sy'n ymweld am y tro cyntaf ers talwm (19%). At hynny, roedd ymwelwyr sy'n ymweld am y tro cyntaf ers talwm ac ymwelwyr dychwel yn fwy tebygol o fod wedi dod i Gymru er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored (33% ar gyfer y naill a'r llall) o gymharu ag ymwelwyr newydd (22%), tra bod ymwelwyr newydd ac ymwelwyr sy'n ymweld am y tro cyntaf ers talwm yn fwy tebygol o fod wedi dod i Gymru er mwyn treulio gwyliau byr mewn dinas (y naill yn 20% a'r llall yn 21%) o gymharu ag ymwelwyr dychwel (14%) – gweler Tabl 7 isod.

Tabl 7: Rhesymau dros ymweld yn ôl pa mor ddiweddar yr ymwelwyd â Chymru	2016 %	Newydd %	Ymweld am y tro cyntaf ers talwm %	Dychwel %
Mwynhau cefn gwlad	67	64	68	67
Ymweld â lleoedd / atyniadau	54	59	60	51
Gweithgareddau awyr agored	32	22	33	33
Ymweld â ffrindiau a pherthnasau	26	16	19	30
Gwyliau byr mewn dinas	16	20	21	14
Siopa	14	14	11	15
Mynd i ddigwyddiad / cyngerdd	9	13	4	10
Hel achau	1	1	1	2
Mynd i sba	1	1	<1	1

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 2 2016 (1,641); Newydd (146); Ymweld am y tro cyntaf ers talwm (389); Dychwel (1,098).

DS mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% gan fod mwy nag un ymateb posibl.

4.3.2 Gweithgareddau y cymerodd yr ymwelwyr ran ydynt tra roeddent yng Nghymru

Ymhlith y rhai a ymwelodd â Chymru er mwyn mwynhau'r dirwedd, aeth y mwyafrif i'r traeth yn ystod eu hymweliad, fel yn 2013 (63% o gymharu â 67%). Ymwelodd tua hanner â pharc gwledig neu barc coedwig (46%, o gymharu â 34%) ac ymwelodd chwarter ag atyniad bywyd gwyllt (24%) neu ardd (23%). Ar y cyfan, cymerodd mwy o ymwelwyr ran mewn gweithgareddau penodol a oedd yn cynnwys cefn gwlad yn 2016 o gymharu â 2013 – gweler Tabl 8 isod.

Tabl 8: Gweithgareddau penodol y cymerwyd rhan ynddynt:		
Mwynhau'r dirwedd / cefn gwlad / y traeth	2016 %	2013 %
% yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddywedodd fod hwn yn un o'r rhesymau dros ymweld	67	69

Gweithgareddau penodol y cymerodd yr ymwelwyr hynny a ddaeth i fwynhau'r dirwedd / cefn gwlad / traeth ran ynddynt		
Ymweld â'r traeth	63	67
Ymweld â pharciau gwledig / parciau coedwig	46	34
Ymweld ag atyniad bywyd gwyllt / gwarchodfa natur	24	
Ymweld â gerddi	23	18
Gwyllo bywyd gwyllt	19	10
Ymweld ag atyniadau penodol	4	
Teithiau cerdded tywysedig	3	
Cerdded (heb fod yn dywysedig)	2	
Eraill	5	11
Ddim yn gwybod / methu cofio	8	-

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 2 2016 (1,641); 2013 (1,618). Yr holl ymwelwyr a ddaeth i Gymru er mwyn mwynhau'r dirwedd: Cam 2 2016 (1,134); 2013 (1,124). DS mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% gan fod mwy nag un ymateb posibl. Mae blychau tywyll yn dynodi nad oedd data cymharu 2013 ar gael (cwestiwn newydd).

Gan ganolbwyntio ar ymwelwyr a aeth i'r traeth; cafodd gwobrau amgylcheddol megis Gwobrau'r Faner Las neu Wobrau'r Arfordir Glas ddylanwad ar ddau o bob tri o'r ymwelwyr hyn pan oeddent yn dewis pa draeth i ymweld ag ef (gyda 66% yn dweud bod hyn yn bwysig i'w dewis). I'r gwrthwyneb, ni wnaeth y gwobrau hyn unrhyw wahaniaeth i tua un o bob tri unigolyn a ymwelodd â thraeth (32%).

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU a oedd wedi dod i Gymru er mwyn ymweld â lleoedd ac atyniadau eu bod wedi treulio amser yn mynd o amgylch i weld atyniadau cyffredinol (65%, o gymharu â 47% yn 2013). Ymwelodd cyfran debyg â chastell neu atyniad hanesyddol arall (64%), gyda dau o bob pum ymwelydd (41%) yn mynd i amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth. Unwaith eto, cymerodd mwy o ymwelwyr ran mewn gweithgareddau penodol a oedd yn cynnwys lleoedd ac atyniadau yn 2016 o gymharu â 2013 – gweler Tabl 9 drosodd.

Tabl 9: Gweithgareddau penodol y cymerwyd rhan ynddynt: Er mwyn ymweld â lleoedd / safleoedd hanesyddol a chrefyddol / atyniadau / cymryd gwyliau byr mewn dinas	2016 %	2013 %
% yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddywedodd fod hwn yn un o'r rhesymau dros ymweld	59	58

Gweithgareddau penodol y cymerodd yr ymwelwyr hynny a ddaeth i Gymru er mwyn ymweld â lleoedd / safleoedd hanesyddol a chrefyddol / atyniadau / cymryd gwyliau byr mewn dinas ran ynddynt		
Gweld atyniadau cyffredinol	65	47
Castell neu atyniad hanesyddol arall	64	58
Amgueddfa a chanolfan dreftadaeth	41	25
Atyniad sy'n ymwneud â natur (e.e. gerddi)	26	20
Safle crefyddol (e.e. eglwys gadeiriol)	24	10
Atyniad treftadaeth ddiwylliannol (e.e. melin)	21	16
Rheilffordd olygfaol / ager / hanesyddol	17	18
Oriel gelf neu arddangosfa	14	9
Atyniad sy'n ymwneud ag anifeiliaid (e.e. sw)	13	11
Lleoliad sy'n gysylltiedig â chyfres deledu, ffilm neu lenyddiaeth	9	
Parc thema / difyrion	5	4
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	4	7
Eraill	2	6
Ddim yn gwybod / methu cofio	5	-

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 2 2016 (1,641); 2013 (1,618). Yr holl ymwelwyr sy'n ymweld â lleoedd: Cam 2 2016 (946); 2013 (936). DS mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% gan fod mwy nag un ymateb posibl. Mae blychau tywyll yn dynodi nad oedd data cymharu 2013 ar gael (cwestiwn newydd).

Mae gwahaniaethau rhanbarthol amlwg i'w gweld o ran y mathau o leioedd yr ymwelwyd â nhw, sy'n adlewyrchu'r cymysgedd o atyniadau sydd ar gael ledled Cymru. Er enghraifft, yn Ne-ddwyrain Cymru ymwelodd hanner ag amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth (o gymharu â 41% yn gyffredinol) ond, yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth Cymru, ymwelodd tri o bob 10 â rheilffordd olygfaol neu hanesyddol (o gymharu â 17% yn gyffredinol).


Gofynnwyd i ymwelwyr sy'n aros o'r DU a oedd wedi ymweld ag atyniad yn ystod eu hymweliad nodi pa mor fodlon oeddent ar agweddau gwahanol ar atyniadau yng Nghymru (gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10); rhoddodd saith allan o 10 sgôr uchel (9 neu 10) ar gyfer eu mwynhad cyffredinol.

Rhoddodd dau o bob tri sgorau boddhad uchel ar gyfer y gwasanaeth a gawsant yn yr atyniadau yr ymwelwyd â nhw (62%), tra dywedodd tua hanner yr un peth mewn perthynas â gwerth am arian (53%) a safon y cyfleusterau yno (48%). Fodd bynnag, dim ond 44% a roddodd sgôr o 9 neu 10 i'r amrywiaeth o atyniadau.

“Roeddwn i am nodi pa mor rhesymol oedd y prisiau mynediad i safleoedd ac atyniadau penodol. Roedd Tyddewi yn Sir Benfro yn wych ac roedd yn rhad iawn. Roedd y lleoedd y gwnaethom ymweld â nhw yn wych o ran yr hyn roeddent yn ei gynnig a faint roeddent yn ei gostio.”

Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd y sgorau boddhad cyfartalog ychydig yn is yn 2016 o gymharu â 2013 – gweler Ffigur 9 drosodd.

Ffig 9: Boddhad â'r atyniadau yr ymwelwyd â nhw



Sylfaen = pob ymwelydd a ymwelodd ag atyniad: 2016 Cam 2 (813), 2013 (745)
DS: mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

Dengys Tabl 10 isod y sgorau boddhad cyfartalog ar gyfer atyniadau yr ymwelwyd â nhw ym mhob un o'r 13 o ranbarthau marchnata yng Nghymru.

Noder y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn, y bwriedir iddynt ddarparu ffigurau dangosol yn hytrach na rhai absoliwt gan fod y ffigurau sylfaenol mor fach.

Tabl 10: Sgorau cyfartalog ar gyfer atyniadau yn ôl rhanbarthau marchnata		Mwynhad cyffredinol	Gwasanaeth a gafwyd	Gwerth am arian	Safon y cyfleusterau	Yr amrywiaeth o atyniadau
Ffigurau sylfaen mewn cromfachau (DS mae rhai yn fach iawn)						
CYMRU GYFAN	(813)	9.1	8.9	8.6	8.5	8.4
Caerdydd, prifddinas Cymru	(87)	9.0	8.9	8.6	8.5	8.4
Sir Gaerfyrddin	(46)	9.1	9.0	9.0	8.7	8.8
Ceredigion / Bae Ceredigion	(56)	9.0	8.9	8.5	8.5	8.3
Arfordir Treftadaeth Morgannwg	(20)	9.0	8.8	8.6	8.5	8.6
Ynys Môn	(47)	9.1	8.6	8.4	8.3	8.3
Llandudno a Bae Colwyn	(39)	9.2	8.7	8.3	8.4	8.4
Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog	(75)	9.2	9.0	8.8	8.7	8.5
Gogledd-ddwyrain Cymru	(54)	9.0	8.7	8.7	8.6	8.3
Sir Benfro	(47)	9.1	8.6	8.6	8.5	8.5
Mynyddoedd ac Arfordir Eryri	(122)	9.2	9.0	8.3	8.5	8.3
Cymoedd De Cymru	(54)	9.1	8.9	8.6	8.5	8.4
Bae Abertawe	(71)	9.0	9.0	8.8	8.6	8.6
Dyffrynnoedd Gwy ac Wysg	(95)	9.1	9.0	8.7	8.5	8.3

Teithiau cerdded oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd y cymerodd ymwelwyr sy'n aros o'r DU a oedd wedi dod i Gymru er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu weithgareddau chwaraeon ran ydynt o bell ffordd. At hynny, cymerodd ymwelwyr ran mewn teithiau cerdded hirach yn 2016 o gymharu â 2013, gyda thri chwarter yn cerdded mwy na dwy filltir yng Nghymru (o gymharu â 55%) a dim ond un o bob pum ymwelydd yn cerdded llai na dwy filltir (o gymharu â 43%).

Mae'n bosibl bod y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, a hefyd y ffaith bod atyniadau gweithgareddau awyr agored wedi'u cynnwys yn y lleoliadau cyfweld (e.e. Bike Park Wales) wedi dylanwadu ar y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gymerodd ran mewn gweithgareddau beicio mynydd a chwaraeon antur – gweler Tabl 11 isod.

Tabl 11: Gweithgareddau penodol y cymerwyd rhan ynddynt: Er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu weithgareddau chwaraeon	2016 %	2013 %
% yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddywedodd fod hwn yn un o'r rhesymau dros ymweld	32	35

Gweithgareddau penodol y cymerodd yr ymwelwyr hynny a ddaeth i Gymru er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu weithgareddau chwaraeon ran ynddynt		
Cerdded (mwy na 2 filltir)	75	55
Cerdded (llai na 2 filltir)	20	43
Beicio	15	12
Nofio (y tu allan a dan do)	13	
Beicio mynydd	13	2
Chwaraeon antur (e.e. canŵio)	12	2
Chwaraeon dŵr	8	6
Taith ar gamlas / mewn cwch	6	4
Pysgota - yn y môr	3	5
Marchogaeth	3	1
Hela (e.e. saethu)	2	
Chwarae golff	2	3
Eraill	4	8
Ddim yn gwybod / methu cofio	2	-

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 2 2016 (1,641); 2013 (1,618). Yr holl ymwelwyr a ddaeth i Gymru er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored: Cam 2 2016 (550); 2013 (569). DS mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% gan fod mwy nag un ymateb posibl. Mae blychau tywyll yn dynodi nad oedd data cymharu 2013 ar gael (cwestiwn newydd)

Er mai dim ond cyfran fach o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ymwelodd â Chymru (neu ran benodol o Gymru) er mwyn mynd i ddigwyddiad, cyngerdd neu ddigwyddiad chwaraeon, mae'r gyfran sy'n dweud eu bod wedi mynd i ŵyl ddiwylliannol, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, yn ystod eu hymweliad wedi cynyddu (i 39%). Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi bod sifftiau cyfweld pwrpasol wedi'u cynnal yng nghanol tref y Fenni yn 2016 (fel rhan o'r ymarfer sicrhau cyfranogiad partneriaid) gyda chwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn yr ardal ar ddechrau mis Awst, felly mae'n debygol bod ffactorau methodolegol wedi dylanwadu ar y cynnydd hwn.

Cynyddodd lefelau presenoldeb mewn digwyddiadau chwaraeon hefyd (17% o gymharu ag 8%) – gweler Tabl 12 isod.

Tabl 12: Gweithgareddau penodol y cymerwyd rhan ynddynt: Er mwyn mynd i ddigwyddiad/ cyngerdd/ perfformiad/ gêm chwaraeon	2016 %	2013 %
% yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddywedodd fod hwn yn un o'r rhesymau dros ymweld	9	6

Gweithgareddau penodol y cymerodd yr ymwelwyr hynny a ddaeth i Gymru er mwyn mynd i ddigwyddiad / cyngerdd / perfformiad / digwyddiad chwaraeon ran yddynt		
Celfyddydau / gŵyl ddiwylliannol / yr Eisteddfod	39	14
Digwyddiad chwaraeon	17	8
Cyngerdd byw	14	19
Perfformiad mewn theatr neu sinema	12	11
Gŵyl gerddoriaeth	8	8
Digwyddiad gweithgaredd (e.e. ras feicio)	7	
Gŵyl fwyd / diodydd	4	1
Eraill	2	47
Ddim yn gwybod / methu cofio	16	-

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 2 2016 (1,641); 2013 (1,618). Yr holl ymwelwyr a ddaeth i Gymru er mwyn mynd i ddigwyddiad: Cam 2 2016 (136); 2013 (96). DS mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% gan fod mwy nag un ymateb posibl. Mae blychau tywyll yn dynodi nad oedd data cymharu 2013 ar gael (cwestiwn newydd).

4.4 Boddhad â'r profiad cyffredinol

4.4.1 Boddhad ag agweddau ar yr ymweliad

Yn gyffredinol, mae ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn fodlon iawn ar eu hymweliad â Chymru. Ar raddfa o 1 i 10, rhoddodd ymwelwyr sgôr o 9.2 allan o 10 ar gyfer *Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef* (sy'n debyg i 2013). O blith yr holl agweddau penodol a werthuswyd rhoddwyd y sgôr gyfartalog uchaf i ansawdd yr amgylchedd naturiol (9.0 allan o 10).

Rhoddwyd sgôr o rhwng 8 a 10 i'r rhan fwyaf o'r agweddau eraill ar yr ymweliad, a dim ond pedair agwedd a gafodd sgôr is na hyn:

- Siopa (7.9)
- Ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus (7.6)
- Hygyrchedd i bobl ag anabledd / salwch hirdymor (7.6)
- Glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus (7.5).

Nodir isod rai sylwadau cyffredinol a gafwyd ar ddiwedd yr holiadau a oedd yn ategu'r canfyddiadau:

“Cefais fy siomi ar yr ochr orau gan y croeso a gefais gan bawb y cwrddais i â nhw. Gwych!”

“Roedd yn wyliau da iawn ac yn cynnig gwerth da iawn am arian; mae'n gyrchfan da iawn”.

“Roedd safon y toiledau yn amrywio - roedd rhai yn lân iawn ac o safon uchel ond roedd rhai eraill yn ofnadwy.”

“Ar y cyfan, gwnaethom fwynhau ein hymweliad, er nad oedd y strydoedd mor lân ag roeddem ni wedi dychmygu y byddent.”

Ychydig iawn o amrywiad a welwyd rhwng y sgorau a roddwyd gan ymwelwyr newydd, ymwelwyr a oedd yn ymweld am y tro cyntaf ers talwm neu ymwelwyr dychwel. Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau rhwng 2016 a 2013, gyda gostyngiad bach yn y rhan fwyaf o sgorau yn 2016. Mae'n bosibl bod y rhain i'w priodoli i'r canlynol:

- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr iau – yn gyffredinol, mae pobl iau yn disgwyl mwy ac yn dangos lefelau is o foddhad na phobl hŷn
- Y newid i fethodoleg ffôn ar gyfer y cwestiynau hyn - mae sgorau boddhad a gafwyd yng Ngham 2 yn 2013 (yn ystod y cyfweiliadau dros y ffôn a gynhaliwyd ar ôl yr hymweliad) yn cyd-fynd yn agosach â ffigurau 2016 na'r sgorau wyneb yn wyneb a roddwyd yn 2013.

Mae Tabl 13 isod yn rhoi manylion y sgorau a roddwyd ar gyfer pob agwedd unigol.

Tabl 13: Boddhad ag agweddau gwahanol ar yr ymweliad â Chymru Sgorau cyfartalog: 1 = Anfodlon iawn; 10 = Bodlon iawn	Tueddiadau Blynnyddol		Math o Ymwelydd 2016		
	2016 %	2013 %	Newydd	Ymweld am y tro cyntaf ers talwm	Dychwel
Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef	9.2	9.3	9.0	9.0	9.3
Ansawdd yr amgylchedd naturiol	9.0	9.5	9.0	9.0	9.0
Lefel o ddiogelwch	8.9		8.8	8.9	8.9
Lleoedd i ymweld â nhw yng Nghymru	8.8	9.3	8.7	8.7	8.8
Y croeso a gafwyd	8.8	8.9	8.8	8.7	8.8
Glendid traethau	8.8	8.8	8.7	8.9	8.8
Gwerth am arian yn gyffredinol	8.5	8.9	8.3	8.5	8.6
Ansawdd dŵr y môr	8.5	8.6	8.2	8.7	8.6
Glendid y strydoedd	8.4	8.6	8.3	8.4	8.4
Faint o groeso y mae Cymru yn ei roi i anifeiliaid anwes	8.2		8.3	8.1	8.2
Safon yr arwyddion i dwristiaid	8.1	8.5	7.9	8.0	8.2
Siopa	7.9	8.6	7.8	7.6	8.0
Ansawdd ac argaeledd trafndiaeth gyhoeddus	7.6		7.9	7.5	7.6
Hygyrchedd i bobl ag anabledd	7.6		7.3	7.5	7.6
Glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus	7.5		7.3	7.7	7.5

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 2 2016 (1,641); Cam 1 2013 (1,618); Cam 2 2013 (406). Newydd (146); Ymweld am y tro cyntaf ers talwm (389); Dychwel (1,098). Mae blychau tywyll yn dynodi nad oedd data cymharu 2013 ar gael (cwestiwn newydd).

Mae Tabl 14 isod yn rhoi manylion y sgorau a roddwyd ar gyfer pob agwedd unigol yn ôl segment grŵp ac mae'n dangos yn glir bod y grŵp 'lau rhwng 16 a 34 oed, dim plant' yn llai bodlon ar bob agwedd ar eu hymweliad na'r holl ymwelwyr yn gyffredinol, tra bod y grŵp 'C2DE gyda phlant' yn fwy bodlon.

Tabl 14: Boddhad ar yr agweddau gwahanol ar yr ymweliad â Chymru yn ôl segment	POB GRŴP	lau, rhwng 16 a 34 oed, dim plant	Grŵp ôl-deulu rhwng 35 a 54 oed, dim plant	Grŵp ôl-deulu 55 oed a throsodd, dim plant	Teithio gyda phlant, ABC1	Teithio gyda phlant, C2DE
Dangosir y sylfaen mewn cromfachau	(1,641)	(124)	(254)	(641)	(451)	(153)
Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef	9.2	8.8	9.2	9.2	9.2	9.3
Ansawdd yr amgylchedd naturiol	9.0	8.9	9.1	9.0	9.1	9.2
Lefel o ddiogelwch	8.9	8.5	9.0	8.9	8.9	9.0
Lleoedd i ymweld â nhw yng Nghymru	8.8	8.6	8.9	8.8	8.7	8.9
Y croeso a gafwyd	8.8	8.5	8.8	8.8	8.8	9.0
Glendid traethau	8.8	8.5	9.0	8.7	8.8	9.0
Gwerth am arian yn gyffredinol	8.5	8.3	8.6	8.5	8.5	8.7
Ansawdd dŵr y môr	8.5	8.4	8.6	8.5	8.6	8.6
Glendid y strydoedd	8.4	8.3	8.5	8.3	8.4	8.6
Faint o groeso y mae Cymru yn ei roi i anifeiliaid anwes	8.2	8.0	8.4	8.2	8.0	8.7
Safon yr arwyddion i dwristiaid	8.1	7.9	8.1	8.0	8.1	8.6
Siopa	7.9	7.4	8.0	7.9	7.8	8.2
Ansawdd ac argaeledd trafndiaeth gyhoeddus	7.6	7.0	7.9	7.9	7.1	7.8
Hygyrchedd i bobl ag anabledd	7.6	6.8	7.5	7.7	7.5	7.9
Glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus	7.5	7.3	7.7	7.6	7.3	7.6

Dengys Tabl 15 drosodd sgorau boddhad cyfartalog yn ôl y 13 o ranbarthau marchnata yng Nghymru.

Noder y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn, y bwriedir iddynt ddarparu ffigurau dangosol yn hytrach na rhai absoliwt gan fod y ffigurau sylfaenol mor fach.

Tabl 15: Boddhad ag agweddau gwahanol ar yr ymweliad â Chymru yn ôl rhanbarth marchnata	CYMRU GYFAN	Caerdydd, prifddinas Cymru	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion / Bae Ceredigion	Arfordir Treftadaeth Morgannwg	Ynys Môn	Llandudno a Bae Colwyn	Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog	Gogledd-ddwyrain Cymru	Sir Benfro	Mynyddoedd ac Arfordir Eryri	Cymoedd De Cymru	Bae Abertawe	Dyffrynnoedd Gwy ac Wysg
(Dangosir y sylfaen mewn cromfachau)	(1,641)	(118)	(104)	(117)	(45)	(101)	(90)	(170)	(110)	(110)	(236)	(110)	(168)	(162)
Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef	9.2	9.2	9.2	9.4	9.4	9.2	9.2	9.3	9.0	9.2	9.2	9.0	9.1	9.3
Ansawdd yr amgylchedd naturiol	9.0	8.7	9.2	9.3	8.6	9.1	8.9	9.3	8.9	9.1	9.2	8.8	9.2	9.0
Lefel o ddiogelwch	8.9	8.8	8.9	9.1	8.8	9.0	9.0	9.2	8.9	9.1	8.9	8.5	9.0	9.0
Lleoedd i ymweld â nhw yng Nghymru	8.8	8.7	8.9	8.8	8.9	8.7	8.9	8.9	8.6	8.8	8.8	8.7	8.6	8.9
Y croeso a gafwyd	8.8	8.9	8.8	9.1	8.7	8.6	8.8	9.0	8.5	8.8	8.6	8.6	8.7	8.9
Glendid traethau	8.8	9.1	8.5	9.0	8.5	8.8	8.8	8.8	8.5	9.2	8.7	8.4	8.8	8.8
Gwerth am arian yn gyffredinol	8.5	8.4	8.4	8.8	8.4	8.5	8.5	8.6	8.5	8.7	8.5	8.5	8.6	8.5
Ansawdd dŵr y môr	8.5	8.6	8.3	8.8	8.0	8.7	8.4	8.7	8.3	9.1	8.3	8.5	8.6	8.3
Glendid y strydoedd	8.4	8.3	8.1	8.7	8.5	8.5	8.6	8.5	8.3	8.7	8.6	7.7	8.3	8.3
Faint o groeso y mae Cymru yn ei roi i anifeiliaid anwes	8.2	8.3	8.0	8.6	8.5	8.4	8.6	8.2	8.6	8.4	8.3	7.7	8.1	8.0
Safon yr arwyddion i dwristiaid	8.1	7.9	7.8	8.3	8.2	8.2	8.5	8.4	8.2	8.1	8.2	7.8	8.1	8.1
Siopa	7.9	8.6	7.1	7.7	8.4	7.8	8.1	7.5	8.1	7.9	7.4	8.1	7.5	7.9
Ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus	7.6	8.4	6.9	7.6	8.7	6.9	8.3	7.2	7.3	7.5	7.1	7.3	7.7	7.4
Hygyrchedd i bobl ag anabledd	7.6	7.5	7.8	7.7	8.6	7.4	7.8	7.3	7.9	7.3	7.4	7.5	7.4	7.4
Glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus	7.5	8.0	7.1	7.8	7.7	7.2	7.2	7.7	7.7	7.7	7.4	7.1	7.7	7.5

Gofynnwyd i'r nifer fach o ymwelwyr (73 o bobl allan o 1,641) a roddodd sgôr o rhwng 1 a 7 allan o 10 ar gyfer eu profiad cyffredinol o ymweld â Chymru beth fyddai wedi gwella eu profiad neu eu hannog i roi sgôr uwch.

Y prif sylw oedd 'tywydd gwell' (21%), tra roedd tua 1 o bob 10 o'r farn y gallai pobl fod yn fwy cyfeillgar neu groesawgar (10%) neu y byddent yn hoffi gweld canol trefi yn cael eu gwella neu eu hadfywio (8%) – gweler Tabl 16 isod am fwy o fanylion.

Tabl 16: Sut y gellid bod wedi gwella profiad yr ymwelydd	
Ymwelwyr a roddodd sgôr o rhwng 1 a 7 ar gyfer 'Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef'	2016 %
Tywydd gwell	21
Pobl fwy cyfeillgar / croesawgar	10
Gellid gwella amgylcheddau trefi (adfywio, cyfleusterau siopa gwell)	8
Dim digon o lety / llety gwell neu ratach	6
Mwy o leoedd diddorol i ymweld â nhw / mwy o weithgareddau gyda phlant	6
Arwyddion gwell / ddim yn hoffi dwy iaith ar yr arwyddion	5
Amrywiaeth ehangach o fwyd / ansawdd gwell / cynnyrch lleol / rhy ddrud	4
Mwy o hysbysebu o ran yr hyn sydd ar gael / sy'n cael ei gynnig	4
Mwy o drafnidiaeth gyhoeddus	3
Gallai fod yn fwy ystyriol o gŵn / ddim yn siŵr a ganiateir cŵn	3
Problemau gyda mynediad i bobl anabl / methu â mynd o gwmpas mewn cadair olwyn	3
Arall	17
Dim byd yn benodol	23
Ddim yn gwybod	3

Ffigurau sylfaen = Ymwelwyr sy'n aros o'r DU a roddodd sgôr o rhwng 1 a 7 ar gyfer 'Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef': Cam 2 2016 (73). DS: nid yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% gan fod mwy nag un ymateb posibl

Ymhlith rhai o'r sylwadau cyffredinol a gafwyd gan yr ymwelwyr hyn roedd:

“Yr holl law! Gwnaethom ni ymweld â Chymru 40 mlynedd yn ôl a bu'n bwrw glaw...a bu'n bwrw glaw yn ddi-baid yn ystod yr ymweliad hwn!”

“Dw i ddim yn credu ei bod mor groesawgar â Dyfnaint, Gwlad yr Haf na Chernyw; dyw hi ddim cystal â Gorllewin Lloegr pan ddaw'n fater o dderbyn twristiaid.”


“Ni wnaeth y dref argraff arna' i a dweud y gwir; Fel arfer mae Secret Escapes yn darparu llety o safon uwch ond roedd y gwesty ymhell o gyrraedd y safon honno.”

“Amrywiaeth y golygfeydd; mewn rhai mannau does dim byd i'w weld, ac ychydig o gyhoeddusrwydd a roddir i rai lleoedd.”

4.4.2 Cynaliadwyedd

Pan ofynnwyd iddynt a yw *Cymru yn gyrchfan cynaliadwy i dwristiaid ar gyfer gwyliau a gwyliau byr*, roedd y mwyafrif llethol o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn cytuno (86%), gyda hanner yr ymwelwyr hyn yn cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn. Roedd cyfran yr ymwelwyr a oedd yn cytuno â'r gosodiad yn debyg i'r hyn a welwyd yn 2013 (roedd 90% yn cytuno).

Roedd ymwelwyr dychwel â Chymru yn fwy tebygol o gytuno'n gryf nag ymwelwyr a oedd yn ymweld am y tro cyntaf ers talwm neu ymwelwyr newydd, sy'n awgrymu bod cynefindra ac awydd i ddychwelyd yn effeithio ar ganfyddiadau o gynaliadwyedd - gweler Ffigur 10 isod.



Roedd gwahaniaethau barn gan ddibynnu ar y lleoliad lle y cydwelwyd â phobl; roedd ymwelwyr â rhanbarthau marchnata Caerdydd, prifddinas Cymru ac Ynys Môn yn fwy tebygol o gytuno â'r gosodiad bod *Cymru yn gyrchfan cynaliadwy i dwristiaid ar gyfer gwyliau a gwyliau byr* o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (79% a 77% yn y drefn honno o gymharu ag 86% ar gyfer Cymru gyfan).

4.4.3 Naws am le

Ymchwiliwyd i ganfyddiadau o natur unigryw Cymru fel cyrchfan i dwristiaid yn 2016 drwy gynnwys rhai cwestiynau newydd yng Ngham 2 (nas cynhwyswyd yn arolwg 2013). Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw agweddau ar eu hymweliad yn cynnwys nodweddion a oedd yn unigryw i Gymru neu a oedd â chymeriad lleol penodol, dewiswyd safleoedd treftadaeth ac atyniadau i ymwelwyr gan tua phedwar o bob 10 ymwelydd fel nodweddion a oedd yn gosod Cymru ar wahân i gyrchfannau eraill, tra dywedodd tua thri o bob 10 fod y bwyd a diod a gawsant yn unigryw i Gymru.

Roedd gwahaniaeth barn ymhlith ymwelwyr sy'n aros o'r DU ynglŷn â phwysigrwydd gallu gweld neu glywed y Gymraeg yn ystod eu hymweliad â Chymru, gyda chyfrannau tebyg yn nodi bod y Gymraeg yn bwysig ac nad oedd yn bwysig (50% a 48% yn y drefn honno).

“Daliwch ati i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn bwysig.”


Mewn cyferbyniad, roedd cyfran uwch o ymwelwyr tramor â Chymru (58%) o'r farn bod clywed neu weld y Gymraeg yn ystod eu hymweliad yn bwysig.

Fodd bynnag, ymhlith ymwelwyr sy'n aros o'r DU, roedd mwyafrif clir o bron dri chwarter (74%) o'r farn ei bod yn bwysig bod eu hymweliad yn rhoi profiad iddynt a oedd yn unigryw i Gymru ac na allent ei gael yn unman arall – gweler Ffigur 11 drosodd.

Roedd mwyafrif uwch fyth o wyth allan o 10 o ymwelwyr tramor (82%), o'r farn bod hyn yn bwysig.

Ffig 11: Canfyddiadau o naws am le wrth ymweld â Chymru


Agweddau neu nodweddion ar yr ymweliad yr ystyriwyd eu bod yn unigryw i Gymru – Awgrymwyd



Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: 2016 Cam 2 (1,641)

DS: nid yw cyfanswm y canrannau bob amser yn cyfateb i 100% (mwy nag un ymateb / talgrynnu)

Pwysigrwydd elfennau gwahanol o'r ymweliad



At hynny, roedd ymwelwyr o Gymru yn fwy tebygol o ddweud ei bod yn bwysig iawn bod eu hymweliad yn rhoi profiad iddynt a oedd yn unigryw i Gymru (44%) o gymharu â'r ymwelwyr hynny o Loegr (35%). Yn yr un modd, roedd ymwelwyr o Gymru yn llawer mwy tebygol o ystyried bod y defnydd o'r Gymraeg yn bwysig iawn (40% yn achos trigolion o Gymru o gymharu â 18% o drigolion o Loegr).

O ran segmentu, y grwpiau 'Ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, heb blant' a 'Teithio gyda phlant, C2DE' oedd fwyaf tebygol o ddweud ei bod yn bwysig bod eu hymweliad â Chymru yn rhoi profiad unigryw iddynt (82% a 84% yn y drefn honno). Nid oedd unrhyw wahaniaethau barn amlwg rhwng segmentau ynglŷn â'r Gymraeg.


4.4.4 Disgwyliadau

Rhagorodd Cymru ar y disgwyliadau yn achos hanner yr ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2016, gyda 53% yn dweud bod eu hymweliad yn well na'r disgwyl (gyda'r gyfran yn codi i 70% ymhlith ymwelwyr newydd). Ar ben hynny, roedd dau o bob pum ymwelydd o'r farn bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni (44%); cynyddodd y gyfran hon i 51% ymhlith ymwelwyr dychwel a oedd yn fwy tebygol o wybod beth sydd gan Gymru i'w gynnig. Er mai dim ond 1% o ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddywedodd nad oedd eu hymweliad cystal â'r disgwyl, nodwyd y gyfran uchaf o unigolion a oedd wedi'u siomi ymhlith ymwelwyr newydd (sef 4%).

O gymharu â 2013, dywedodd ychydig yn llai o ymwelwyr fod eu hymweliad wedi rhagori ar eu disgwyliadau (53% o gymharu â 57% yn 2013), ond ni fu unrhyw newid o ran lefel y rhai a ddywedodd nad oedd wedi bodloni eu disgwyliadau.

“Roedd yr hymweliad yn llawer gwell na'r disgwyl; i ddechrau doeddwn i ddim am fynd am fod yn well gen i fynd dramor ond ces i fy siomi ar yr ochr orau. Yr unig wendid oedd ein bod wedi mynd y tu allan i dymor y gwyliau, a oedd yn golygu ei bod yn anodd dod o hyd i weithgareddau i'm mab. Hoffwn i ymweld unwaith eto yn ystod tymor y gwyliau.”

Ffig 12: A fodlonodd yr hymweliad â Chymru y disgwyliadau



Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: 2016 Cam 2 (1,641); 2013 (406); Newydd (146), Ymweld am y tro cyntaf ers talwm (389), Dychwel (1,098). DS: mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

O ran segmentu, y grwpiau 'Ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, heb blant' ac 'Ôl-deulu, rhwng 35 a 54 oed heb blant' a oedd fwyaf tebygol o ddweud bod eu hymweliad â Chymru wedi rhagori ar eu disgwyliadau (61% a 60% yn y drefn honno).

Dengys Tabl 17 drosodd gyfrannau'r ymwelwyr â gwahanol rannau o Gymru a ddywedodd fod eu hymweliad wedi rhagori ar eu disgwyliadau, wedi bodloni eu disgwyliadau neu nad oedd wedi bodloni eu disgwyliadau. Nododd cyfrannau uwch na'r cyfartaledd fod eu hymweliad wedi rhagori ar eu disgwyliadau ym Mae Abertawe, Llandudno / Bae Colwyn, Caerdydd, prifddinas Cymru a Mynyddoedd ac Arfordir Eryri, tra dywedodd cyfrannau is na'r cyfartaledd yr un peth yn Neddwyrain Cymru, Sir Benfro a Dyffrynnoedd Gwy ac Wysg.

Noder y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn, y bwriedir iddynt ddarparu ffigurau dangosol yn hytrach na rhai absoliwt gan fod y ffigurau sylfaenol mor fach.

Tabl 17: A fodlonwyd disgwyliadau yn ôl rhanbarth marchnata? (Dangosir y sylfaen mewn cromfachau)	CYMRU GYFAN (1,641)	Caerdydd, prifddinas Cymru (118)	Sir Gaerfyrddin (104)	Ceredigion / Bae Ceredigion (117)	Arfordir Treftadaeth Morgannwg (45)	Ynys Môn (101)	Llandudno a Bae Colwyn (90)	Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog (170)	Gogledd- ddwyrain Cymru (110)	Sir Benfro (110)	Mynyddoedd ac Arfordir Eryri (236)	Cymoedd De Cymru (110)	Bae Abertawe (168)	Dyffrynnoedd Gwy ac Wysg (162)
Rhagorwyd ar y disgwyliadau	54	59	49	52	56	49	60	52	45	48	59	53	63	48
Bodlonwyd y disgwyliadau	44	36	48	48	44	48	39	48	51	50	39	45	36	51
Disgwyliadau heb eu bodloni	1	3	2	-	-	4	-	1	3	1	1	2	2	1

O ran segmentu, y grwpiau 'Ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, heb blant' ac 'Ôl-deulu rhwng 35 a 54 oed' a oedd fwyaf tebygol o ddweud bod eu hymweliad yn well na'r disgwyl (61% a 60% yn y drefn honno). Gan edrych ar y rhanbarth cartref, roedd pobl a oedd yn byw yn Lloegr ychydig yn fwy tebygol o ddweud bod eu hymweliad wedi rhagori ar eu disgwyliadau (54%) o gymharu â'r rhai a oedd yn byw yng Nghymru (52%), efallai am fod pobl o Gymru yn gwybod beth sydd gan y rhanbarth i'w gynnig.


4.4.5 Dychwelyd i Gymru yn y dyfodol

Dywedodd mwy na naw o bob 10 ymwelydd sy'n aros o'r DU y byddent yn ymweld â Chymru eto yn y dyfodol (95%), gyda 79% yn dweud y byddent yn bendant yn ymweld â Chymru eto (sy'n gyson â ffigurau 2013). Dim ond cyfran fach iawn o ymwelwyr (4%) a ddywedodd nad oeddent yn debygol o ymweld â Chymru eto.

Ymwelwyr dychwel a oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn bendant yn ymweld â Chymru eto (87%), gyda bron saith o bob 10 ymwelydd newydd yn dweud yr un peth (68%). Y rhai a oedd yn ymweld â Chymru am y tro cyntaf ers talwm a oedd leiaf tebygol o ddweud eu bod yn bendant yn bwriadu dychwelyd (61%) – gweler Ffigur 13 isod.

“Rydym yn edrych ymlaen yn arw at ddod yn ôl y flwyddyn nesaf; rydym yn dechrau cyffroi yn barod am ein bod yn bwriadu aros am gyfnod hirach y tro nesaf. Rydym yn dwli ar y lle, mae cymaint i'w wneud, ac mae'r golygfeydd yn wych hefyd”.

Ffig 13: Y tebygolrwydd o ddychwelyd



Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: 2016 Cam 2 (1,641); 2013 (1,609); Newydd (146), Ymweld am y tro cyntaf ers talwm (389), Dychwel (1,098). DS: mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

Dywedodd naw o bob 10 ymwelydd o Gymru y byddent yn bendant yn ymweld eto (90%), er bod y mwyafrif helaeth o ymwelwyr o Loegr wedi dweud yr un peth (78%). O ran segmentu; y grŵp 'C2DE gyda phlant' a oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn bendant yn dychweld ar ymweliad arall (85%), tra mai'r grŵp 'Ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, heb blant' a oedd leiaf tebygol o ddychwelyd (70%).


4.4.6 Argymhelliad

Gan adlewyrchu'r lefelau uchel o foddhad ymhlith ymwelwyr a'r ffaith eu bod yn debygol iawn o ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol, dywedodd mwy na naw o bob 10 ymwelydd sy'n aros o'r DU y byddent yn argymhell Cymru fel gwlad i ymweld â hi i ffrindiau a pherthnasau (97%); byddai bron pob un o'r rhain yn bendant yn argymhell Cymru fel gwlad i ymweld â hi (93% - o gymharu â 96% yn 2013). Dim ond 2% a ddywedodd na fyddent yn argymhell Cymru i ffrind na pherthynas.

Amrywiai'r ffigurau hyn ychydig gan ddibynnu ar b'un a oedd yr ymwelwyr yn newydd i Gymru neu a oeddent wedi bod o'r blaen – gweler Ffigur 14 isod.

“Mwynheais i'n fawr iawn, byddwn i'n bendant yn dychwelyd i Gymru ac yn argymhell hynny i bobl eraill. Nid Rhyl oedd fy holl le ond roedd yn rhad ac yn ddigon dymunol a dyna beth roeddem yn chwilio amdano.”

“Ni fyddwn yn argymhell Cymru am nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn treulio gwyliau yn y wlad hon. Roeddwn i'n ei hoffi am fod fy ffrindiau yno ond, yn fy marn i, doedd dim byd arbennig amdani a doedd dim llawer i'w wneud pan oedd yn bwrw glaw.”



Dywedodd bron pob un o'r ymwelwyr o Gymru y byddent yn bendant yn argymhell Cymru fel gwlad i ymweld â hi (98%), gyda 91% o ymwelwyr o Loegr yn dweud yr un peth. O ran segmentu; y grŵp 'ôl-deulu rhwng 35 a 54 oed' a oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn bendant yn argymhell Cymru (94%), tra mai'r grŵp 'Ymwelwyr iau rhwng 16 a 34 oed, heb blant' a oedd leiaf tebygol o'i hargymhell (87%).

4.5 Ymwybyddiaeth o ddeunydd marchnata a gwybodaeth

4.5.1 Ymwybyddiaeth o ddeunydd hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd

Wrth ymweld â nhw wyneb yn wyneb yn ystod eu hymweliad â Chymru, gofynnwyd i ymwelwyr sy'n aros o'r DU a oeddent wedi gweld unrhyw ddeunydd hysbysebu neu farchnata neu unrhyw ohebiaeth cyn iddynt ymweld â Chymru; nododd dau o bob tri eu bod wedi gweld deunydd o'r fath.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhain eu bod wedi gweld hysbysebion ar y teledu (41% yn gyffredinol): roedd cyfrannau llai wedi clywed pobl eraill yn sôn am Gymru neu'n ei hargymell (15%), wedi gweld rhywbeth ar-lein yn www.visitwales.com neu ar wefannau eraill (14% a 13% yn y drefn honno) neu wedi darllen erthygl mewn papur newydd neu gylchgrawn (12%).

Roedd ymwelwyr sy'n aros sy'n byw yng Nghymru yn fwy tebygol o fod wedi gweld deunydd hysbysebu a marchnata am Gymru na'r rhai a oedd yn byw yn Lloegr (74% o gymharu â 65%), ac, yn gyffredinol, roedd mwy o drigolion o Gymru wedi gweld deunydd hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd o bob math na thrigolion o Loegr. Yr eithriad i hyn oedd argymhelliad personol a chyfryngau ar-lein – mae Tabl 18 isod yn rhoi manylion llawn yr ohebiaeth a welwyd neu a glywyd.

Tabl 18: Mathau o ddeunydd hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer Cymru a welwyd cyn yr ymweliad	2016 pob ymwelydd %	Newydd %	Dychwel %	Byw yng Nghymru %	Byw yn Lloegr %
A WELWYD UNRHYW DDEUNYDD MARCHNATA / CYHOEDDUSRWYDD?	66	64	66	74	65
Hysbysebion ar y teledu	41	37	42	53	40
Argymhelliad personol / sgysiau â phobl	15	16	15	14	15
www.visitwales.com	14	11	14	15	13
Gwefannau eraill	13	14	13	14	13
Darllenwyd erthygl mewn papur newydd neu gylchgrawn	12	8	13	18	11
Rhaglen deledu	11	10	11	18	10
Cyfryngau cymdeithasol	9	7	9	14	8
Gwelwyd hysbyseb mewn papur newydd / cylchgrawn	8	6	9	15	7
Hysbysebion y tu allan (e.e. posteri)	7	4	7	16	5
Hysbysebion ar-lein	7	6	7	10	7
Hysbysebion neu raglenni ar y radio	5	4	5	13	3
Post uniongyrchol / taflenni	3	1	3	4	3
Cylchlythyr e-bost	2	1	2	4	2
Hysbysebion yn y sinema	1	1	1	3	1
Arall	2	3	2	2	2
Dim un o'r rhain	34	35	34	26	35
Ddim yn gwybod	1	1	1	<1	1


Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 1 2016 (2,892); Cam 2 2016 (1,641); Newydd (355); Dychwel (2,509). Yn byw yng Nghymru (383), Yn byw yn Lloegr (2,441). DS: nid yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% gan fod mwy nag un ymateb posibl

Roedd rhai amrywiadau rhwng rhanbarthau o ran ymwybyddiaeth o ddeunydd marchnata a chyhoeddusrwydd; nodwyd y lefelau uchaf o ymwybyddiaeth o ohebiaeth am Gymru ymhlith ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddaeth i Dde-ddwyrain Cymru (75%), a'r lefelau isaf ymhlith y rhai a ymwelodd â Gogledd Cymru (54%).

4.5.2 Ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddiwyd cyn ac yn ystod yr ymweliad

Defnyddiodd bron wyth o bob 10 ymwelydd sy'n aros o'r DU (78%) rai ffynonellau o wybodaeth i gynllunio eu hymweliad â Chymru cyn dod i'r wlad; ffynonellau ar-lein (megis gwefannau ac apiau) a ddefnyddiwyd amlaf (71%; o gymharu â 57% yn 2013), tra defnyddiwyd ffynonellau all-lein (megis tywyslyfrau a thaflenni) ymlaen llaw gan tua hanner cymaint (27%, o gymharu â 18% yn 2013).

Defnyddiwyd llai o wybodaeth yn ystod yr ymweliad, gydag ychydig o dan chwech o bob 10 (59%) o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn dweud eu bod wedi ymgynghori â ffynonellau gwybodaeth tra eu bod ar wyliau yng Nghymru. Yn ystod yr ymweliad ceir cydbwysedd mwy cyfartal rhwng ffynonellau all-lein (38%) a ffynonellau ar-lein (35%) – gweler Ffigur 15 isod.



Chwilotwyr cyffredinol megis Google oedd y sianel wybodaeth ar-lein fwyaf poblogaidd cyn ac yn ystod yr ymweliad (a ddefnyddiwyd gan 48% a 55% yn y drefn honno). Defnyddiodd tua un o bob pump wefan Croeso Cymru www.visitwales.com cyn eu gwyliau (19%), er bod y defnydd o'r wefan wedi lleihau i 11% yn ystod yr ymweliad. Roedd apiau yn fwy tebygol o gael eu defnyddio gan ymwelwyr tra eu bod yng Nghymru ar eu gwyliau (13%) na chyn iddynt ddod i'r wlad (7%), yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol (12% o gymharu ag 8%) – gweler Tabl 19 isod am ragor o fanylion.

Tabl 19: Ffynonellau ar-lein o wybodaeth a ddefnyddiwyd cyn / yn ystod yr ymweliad	Cyn yr ymweliad %	Yn ystod yr ymweliad %
% yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddefnyddiodd ffynonellau ar-lein	71	35

Ffynonellau penodol a ddefnyddiwyd gan y rhai a gyrchodd wybodaeth ar-lein		
Chwilotwyr (e.e. Google)	48	55
Gwefan Croeso Cymru / National Tourist Board	19	11
Gwefannau busnesau twristiaeth (e.e. llety)	14	9
Gwefannau adolygiadau (e.e. TripAdvisor)	12	9
Gwefan archebu llety (e.e. laterooms)	10	1
E-bost	9	7
Cyfryngau cymdeithasol	8	12
Apiau	7	13
Gwefannau atyniadau penodol	5	7
Gwefannau Awdurdodau Rhanbarthol neu Leol	1	3
Gwefannau llywio (e.e. Google Maps)	3	10
Eraill	11	9
Ddim yn gwybod / methu cofio	11	14

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 2 2016 (1,641). Yr holl ymwelwyr a ddefnyddiodd ffynonellau ar-lein cyn yr ymweliad (1,166); yn ystod yr ymweliad (572). DS mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% am fod mwy nag un ymateb posibl.

Y ffynonellau all-lein fwyaf poblogaidd o wybodaeth ar gyfer ymwelwyr cyn iddynt ddod i Gymru oedd ar dafod leferydd (29%); gostyngodd y ganran hon i ddim ond 14% yn ystod ymweliadau. Fodd bynnag, cynyddodd y defnydd o daflenni yn sylweddol yn ystod ymweliadau (i 56% o'r rhai a ddefnyddiodd wybodaeth all-lein o gymharu â 26% o'r grŵp hwn a wnaeth hynny cyn yr ymweliad).

Ychydig o ddefnydd a wnaed o bamffledi a luniwyd gan Croeso Cymru ac awdurdodau lleol (cyn yr ymweliad = 10% ac 11% yn y drefn honno), er bod y defnydd o bamffledi awdurdodau lleol wedi cynyddu ychydig yn ystod ymweliadau (i 14%).

Roedd y defnydd o Ganolfannau Croeso cyn ymweld â Chymru hefyd yn isel (3%). Fodd bynnag, yn ystod ymweliadau, cynyddodd y defnydd o Ganolfannau Croeso (o bell ac yn bersonol) yn sylweddol i 18% - gweler Tabl 20 drosodd am ragor o fanylion.

Tabl 20: Ffynonellau all-lein o wybodaeth a ddefnyddiwyd cyn / yn ystod yr ymweliad	Cyn yr ymweliad %	Yn ystod yr ymweliad %
% yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddefnyddiodd ffynonellau all-lein	27	38

Ffynonellau penodol a ddefnyddiwyd gan y rhai a gyrchodd wybodaeth all-lein		
Siarad â ffrindiau / perthnasau / cydweithwyr	29	14
Taflenni	26	56
Tywyslyfr	15	9
Pamffledyn gan yr Awdurdod Lleol / Bwrdd Twristiaeth Lleol	11	14
Pamffledyn gan Croeso Cymru / National Tourist Board	10	8
Mapiau	7	4
Gwybodaeth leol / ymweliadau blaenorol	5	1
Papur newydd neu gylchgrawn	4	3
Canolfan Croeso (ffôn neu e-bost)	3	18
Siarad â darparwr llety	3	11
Llyfrau a chylchgronau gwersylla / carafanio	2	1
Llyfrau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol	2	1
Eraill	5	3
Ddim yn gwybod / methu cofio	7	2

Ffigurau Sylfaen = pob ymwelydd sy'n aros o'r DU: Cam 2 2016 (1,641). Yr holl ddefnyddwyr a ddefnyddiodd ffynonellau all-lein cyn yr ymweliad (454); yn ystod yr ymweliad (641). DS mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% am fod mwy nag un ymateb posibl.

4.5.3 Blwyddyn Antur 2016


Yn 2016, lansiodd Croeso Cymru ymgyrch i hyrwyddo Cymru fel ‘*prifddinas twristiaeth antur y byd*’, gan ddechrau gyda ‘Blwyddyn Antur 2016’ a ddilynir gan ‘Flwyddyn Chwedlau 2017’ a ‘Blwyddyn y Môr 2018’.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn cynhyrchion twristiaeth antur yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae Cymru bellach yn gartref i atyniadau megis Zip World, y trampolîn tanddaearol mwyaf yn y byd, cyfleusterau beicio mynydd mewn canolfannau megis Coed-y-Brenin, Bike Park Wales ac Antur Stiniog, a Llwybr Arfordir Cymru sy'n ymestyn am 870 o filltiroedd. Ymhlith y digwyddiadau antur a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2016 roedd y Velathon, IronMan a Survival of the Fittest.

Gofynnwyd i ymwelwyr sy'n aros o'r DU a oeddent wedi gweld unrhyw ddeunydd hysbysebu, marchnata neu gyhoeddusrwydd ar gyfer ‘Blwyddyn Antur 2016’; dim ond 11% a ddywedodd eu bod wedi gweld deunydd o'r fath. Gwelwyd y lefelau ymwybyddiaeth uchaf ymhlith ymwelwyr â Chanolbarth Cymru (15%) a'r lefelau isaf yn Ne-ddwyrain Cymru (9%).

O'r rhai a oedd wedi gweld deunydd marchnata am ‘Flwyddyn Antur 2016’, dywedodd y mwyafrif nad oedd yr ymgyrch wedi cael unrhyw ddylanwad ar eu penderfyniad i ymweld â Chymru (68%). Fodd bynnag, dywedodd bron chwarter yr ymwelwyr hyn (22%) fod yr ymgyrch wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ryw raddau, gyda 6% yn dweud ei fod wedi cael cryn ddylanwad arno – gweler Ffigur 16 drosodd.


Ffig 16: Ymwybyddiaeth o 'Flwyddyn Antur 2016' a'r dylanwad ar y penderfyniad i Ymweld â Chymru



Gwelwyd y lefelau uchaf o ymwybyddiaeth o 'Flwyddyn Antur 2016' ymhlith ymwelwyr o Gymru o gymharu â'r rhai o Loegr (17% o gymharu â 10%).

O ran segmentu, gwelwyd y lefelau ymwybyddiaeth uchaf ymhlith y grŵp 'C2DE yn teithio gyda phlant' (14%) a'r lefelau isaf ymhlith y grŵp 'Ôl-deulu rhwng 35 a 54 oed' Fodd bynnag, ar y grŵp olaf hwn y cafodd yr ymgyrch yr effaith fwyaf, gydag 11% yn nodi bod 'Blwyddyn Antur 2016' wedi cael dylanwad mawr ar eu penderfyniad i ymweld â Chymru – gweler Ffigur 17 drosodd.

Ffig 17: Ymwybyddiaeth o 'Flwyddyn Antur 2016' yn ôl rhanbarth cartref a segmentau



DS: mae'n bosibl nad yw cyfanswm y canrannau yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu


4.6 Llety a ddefnyddiwyd a bwyta allan

4.6.1 Llety a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd amrywiaeth o wahanol fathau o lety gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2016; gwestai a llety hunanddarpar oedd y mathau mwyaf poblogaidd, gyda'r naill a'r llall yn cael eu defnyddio gan un o bob pum ymwelydd sy'n aros. Er i'r defnydd o westai leihau ychydig yn 2016 (21% o gymharu â 23%) cynyddodd y defnydd o dai a bythynnod hunanddarpar i 20% o 15%.

Roedd carafannau teithio / cerbydau gwersylla gryn dipyn yn fwy poblogaidd yn 2016 o gymharu â 2013 (14% o gymharu â 6%), tra gostyngodd gwersylla (9% o gymharu â 13%). Ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o lety Airbnb a llety amgen (e.e. pebyll crwyn) (sef 1% yr un) ond nid ymddangosodd y naill na'r llall yn arolwg 2013.


Ar gyfartaledd arhosodd ymwelwyr sy'n aros o'r DU 5.2 noson yng Nghymru yn 2016 – gweler Ffigur 18 isod.



4.6.2 Archebu llety

Mae cyfran yr ymwelwyr sy'n archebu llety drwy ddarparwr llety wedi gostwng ers 2013, er mai dyma'r dull mwyaf cyffredin o archebu llety o hyd. Archebodd ychydig dros ddau o bob pum ymwelydd (44%) a arhosodd mewn llety y talwyd amdano yn uniongyrchol gyda'r darparwr yn 2016 (o gymharu â 70%). Bu gostyngiad yng nghyfran yr ymwelwyr a ddefnyddiodd drefnwyr gwyliau i archebu llety hefyd i ddim ond 2% (o gymharu ag 8% yn 2013).

Mewn cyferbyniad, mae'r defnydd o wefannau archebu trydydd parti megis booking.com ac Expedia wedi cynyddu'n sylweddol, gyda chwarter yr ymwelwyr o'r DU yn aros mewn llety y talwyd amdano yng Nghymru yn 2016 gan ddefnyddio gwefannau o'r fath i drefnu llety ar gyfer eu hymweliad diweddar (26%, o gymharu ag 8% yn 2013) – gweler Ffigur 19 isod.



Roedd grwpiau 'lau rhwng 16 a 34 oed, heb blant' yn wahanol i grwpiau eraill o ran y ffordd y gwnaethant archebu eu llety; hwn oedd yr unig grŵp yr oedd yn well ganddo ddefnyddio gwefannau archebu trydydd parti (39%) yn hytrach na chysylltu â darparwr y llety yn uniongyrchol (32%).

Roedd y 'Grŵp ôl-deulu rhwng 35 a 54 oed, heb blant' hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio gwefannau archebu trydydd parti (36%), tra mai'r grŵp 'Teithio gyda phlant, C2DE' a oedd leiaf tebygol o fod wedi defnyddio'r dull hwn (18%); y grŵp hwn a oedd fwyaf tebygol o gyrraedd llety yn ddirybudd ac wedyn ei archebu'n uniongyrchol oddi wrth ddarparwr y llety hwnnw (11%) – gweler Tabl 21 am ragor o fanylion.

Tabl 21: Sut y cafodd llety ei archebu yn ôl segmentau	POB GRŴP	lau, rhwng 16 a 34 oed, dim plant	Grŵp ôl-deulu rhwng 35 a 54 oed, dim plant	Grŵp ôl-deulu 55 oed a throsodd, dim plant	Teithio gyda phlant, ABC1	Teithio gyda phlant, C2DE
Nodir y sylfaen mewn cromfachau = y rhai a ddefnyddiodd llety y talwyd amdano yn ystod eu hymwelïad	(1,388)	(112)	(220)	(539)	(379)	(125)
Yn uniongyrchol gyda'r darparwr (ffôn, e-bost, gwefan)	44	32	42	43	49	46
Drwy wefan llety ar-lein trydydd parti (e.e. booking.com)	26	39	36	25	22	18
Trefnu ar ôl cyrraedd	6	9	3	4	8	11
Gwefan arall	6	3	6	5	3	2
Archebodd rhywun arall y llety ar fy rhan (perthynas / ffrind)	4	9	5	7	5	4
Roedd y llety yn eiddo i'r ymwelydd / perthynas / ffrind	3	-	2	3	5	2
Drwy drefnwr teithiau neu weithredwr teithiau	2	2	1	4	1	3
Drwy wefan bargeinion (e.e. Groupon)	1	1	2	1	2	2
Y Clwb Carafanio (ffôn / ar-lein)	1	1	-	2	1	2
Drwy www.visitwales.com	1	1	1	1	1	2
Arall	1	-	1	1	<1	2
Ddim yn gwybod / methu cofio	3	4	1	3	4	6

4.6.3 Boddhad â Chyfleusterau


Gofynnwyd i ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddefnyddiodd lety y talwyd amdano yn ystod eu hymweliad â Chymru nodi pa mor fodlon oeddent ar agweddau gwahanol ar y llety hwnnw. Ar y cyfan, roedd lefelau boddhad yn uchel, gyda bron dau o bob tri ymwelydd yn dweud eu bod yn fodlon iawn, ar y cyfan, â'r llety a ddefnyddiwyd (63%).

At hynny, roedd tua chwech o bob 10 yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gafwyd yn y llety (61%), y gwerth am arian roedd yn ei gynnig (57%) a'i ansawdd (56%), er nad oedd lleiafrif mawr, sef tua thri i bedwar o bob 10, ond yn eithaf bodlon ar bob agwedd ar y llety. Wedi dweud hynny, dim ond cyfran fach iawn o ymwelwyr a oedd yn anfodlon ar unrhyw agwedd ar y llety roeddent wedi aros ynddo.

“Roedd safon y llety yn uchel ym mhob un o'r tri lleoliad lle y buon ni'n aros...roedd y gwestai yn wych - gwnaethant ddiwallu fy holl anghenion.”

“Roedd y llety yn ofnadwy – daethom o hyd iddo ar booking.com. Roedd gryn dipyn yn is na'r safon, nid oedd yn ddrud iawn, ond fel arfer mae'r prisiau yng Nghymru yn rhesymol ac, felly, roeddwn i'n disgwyl y safonau arferol, ond roedd ansawdd y llety yn ofnadwy.”

Bu gostyngiad bach yn y sgorau cyfartalog ar gyfer pob agwedd ar y llety a ddefnyddiwyd yn 2016 o gymharu â 2013 – gweler Ffigur 20 isod.



Ymwelwyr sy'n aros o'r DU a oedd yn gwersylla / carafanio a ddangosodd y lefelau uchaf o foddhad cyffredinol â'u llety, yn ogystal â'r rhai a oedd mewn llety hunanddarpar:

- Gwersylla = rhoddodd 67% sgôr uchel
- Carafán deithio = rhoddodd 70% sgorau uchel
- Carafán sefydlog = rhoddodd 66% sgorau uchel
- Llety hunanddarpar = rhoddodd 69% sgôr uchel

Mewn cyferbyniad, roedd yr ymwelwyr hynny a arhosodd mewn llety â gwasanaeth megis gwestai a llety gwely a brecwast yn tueddu i fod yn llai bodlon yn gyffredinol ar eu llety:

- Gwestai = rhoddodd 51% sgorau uchel
- Llety gwely a brecwast/gwestai = rhoddodd 55% sgorau uchel.


Roedd lefelau boddhad â llety yn amrywio rhwng rhanbarthau gwahanol yng Nghymru; tueddai'r sgorau i fod yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith ymwelwyr â Cheredigion / Bae Ceredigion a Chanolbarth Cymru / Bannau Brycheiniog a Sir Benfro, ac yn is na'r cyfartaledd yn Sir Gaerfyrddin, Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Gogledd-ddwyrain Cymru a Mynyddoedd ac Arfordir Eryri - gweler Tabl 22 isod.

Tabl 22: Sgorau cyfartalog ar gyfer llety a ddefnyddiwyd yn ôl y rhanbarth marchnata		Boddhad cyffredinol	Gwasanaeth	Gwerth am arian	Ansawdd
Ffigurau sylfaen mewn cromfachau (DS mae rhai yn fach iawn)					
CYMRU GYFAN	(1,641)	8.7	8.7	8.5	8.5
Caerdydd, prifddinas Cymru	(118)	8.7	8.7	8.5	8.6
Sir Gaerfyrddin	(104)	8.4	8.4	8.4	8.2
Ceredigion / Bae Ceredigion	(117)	8.9	8.8	8.8	8.6
Arfordir Treftadaeth Morgannwg	(45)	8.2	8.1	8.3	8.1
Ynys Môn	(101)	8.8	8.7	8.7	8.4
Llandudno a Bae Colwyn	(90)	8.8	8.9	8.6	8.5
Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog	(170)	9.0	8.8	8.7	8.8
Gogledd-ddwyrain Cymru	(110)	8.5	8.3	8.4	8.3
Sir Benfro	(110)	8.9	9.0	8.6	8.8
Mynyddoedd ac Arfordir Eryri	(236)	8.6	8.6	8.4	8.4
Cymoedd De Cymru	(110)	8.8	8.7	8.7	8.5
Bae Abertawe	(168)	8.6	8.7	8.4	8.4
Dyffrynnoedd Gwy ac Wysg	(162)	8.6	8.6	8.5	8.4

4.6.4 Cynaliadwyedd llety

Dywedodd bron wyth o bob 10 ymwelydd sy'n aros o'r DU (79%) ei bod yn bwysig iddynt fod unrhyw lety y maent yn dewis ymweld ag ef yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy; dywedodd 36% ei bod yn bwysig iawn iddynt (o gymharu â 49% yn 2013) tra ei bod yn eithaf pwysig i 43% o ymwelwyr (o gymharu â 36%). Dim ond 16% o ymwelwyr a ddywedodd nad oedd defnyddio llety sy'n cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy yn bwysig iddynt (o gymharu â 13%).

Roedd ymwelwyr dychwel ac ymwelwyr a oedd yn ymweld â Chymru am y tro cyntaf ers talwm yn fwy tebygol o ystyried bod rheoli llety mewn ffordd gynaliadwy yn bwysig iawn (37% a 36% yn y drefn honno) o gymharu ag ymwelwyr newydd (28%) - gweler Ffigur 21 isod.



4.6.5 Bwyta allan


Gwnaeth dros wyth o bob 10 ymwelydd sy'n aros o'r DU fwyta allan yn ystod eu hymweliad â Chymru (81%); sy'n gynnydd sylweddol o gymharu â lefel 2013 (60%).

Roedd lefelau boddhad ag agweddau gwahanol ar y profiad o fwyta allan yng Nghymru yn amrywio, gydag ymwelwyr yn rhoi'r sgorau uchaf ar gyfer gwasanaeth (49% yn fodlon iawn) a'r sgorau isaf ar gyfer y defnydd o fwyd lleol neu fwyd o Gymru ar y fwydlen (24% yn fodlon iawn). O ran yr agwedd olaf, roedd bron un o bob 10 ymwelydd (8%) yn anfodlon, gan roi sgorau o ddim ond 1-4, tra na allai tua chwarter (24%) wneud sylwadau.

“Roedd y gwyliau yn fendigedig, roedd pawb mor groesawgar. Bwyd lleol, rhywbeth i bawb.”

“Roeddwn i'n siomedig nad oedd llawer o opsiynau bwyd Cymreig ar gael yn eang mewn gwestai nac ychwaith mewn llawer o'r tafarndai yr aethom ni iddynt. Daethom ar draws rhai seigiau Cymreig ond roedd yn rhaid i chi chwilio amdanynt.”

Mewn cyferbyniad â'r canfyddiadau ar gyfer agweddau eraill ar yr ymweliad, roedd y sgorau boddhad cyfartalog ar gyfer bwyta allan ychydig yn uwch yn 2016 o gymharu â 2013 – gweler Ffigur 22 isod.



Roedd lefelau boddhad â bwyta allan yn amrywio ledled Cymru; tueddai'r sgorau cyfartalog a gafwyd i fod yn uwch na sgôr Cymru gyfan yng Ngheredigion / Bae Ceredigion a Llandudno / Bae Colwyn ac yn is na'r cyfartaledd yn Sir Gaerfyrddin, Cymoedd De Cymru a Bae Abertawe. Rhoddwyd sgôr arbennig o isel i Gaerdydd, prifddinas Cymru ar gyfer 'Y defnydd o fwyd lleol neu fwyd Cymreig ar y fwydlen' - gweler Tabl 23 isod.

Tabl 23: Sgorau cyfartalog ar gyfer bwyta allan yn ôl rhanbarth marchnata		Gwasanaeth	Ansawdd y bwyd	Gwerth am arian	Yr amrywiaeth o leoedd i fwyta	Y defnydd o fwyd lleol neu fwyd o Gymru ar y fwydlen
Ffigurau sylfaen mewn cromfachau (DS mae rhai yn fach iawn)						
CYMRU GYFAN	(1,335)	8.5	8.3	8.2	7.9	7.3
Caerdydd, prifddinas Cymru	(104)	8.4	8.4	8.2	8.6	6.6
Sir Gaerfyrddin	(84)	8.1	8.0	8.0	7.8	7.0
Ceredigion / Bae Ceredigion	(99)	8.8	8.6	8.4	8.2	7.7
Arfordir Treftadaeth Morgannwg	(35)	8.5	8.3	8.2	8.2	7.1
Ynys Môn	(80)	8.5	8.4	8.0	7.5	7.8
Llandudno a Bae Colwyn	(63)	8.7	8.4	8.3	8.0	7.5
Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog	(134)	8.4	8.3	8.2	7.6	7.2
Gogledd-ddwyrain Cymru	(87)	8.7	8.5	8.4	7.7	7.6
Sir Benfro	(93)	8.4	8.3	8.1	8.0	7.9
Mynyddoedd ac Arfordir Eryri	(213)	8.4	8.2	8.1	7.6	7.5
Cymoedd De Cymru	(84)	8.3	8.1	8.1	7.7	6.9
Bae Abertawe	(134)	8.4	8.2	8.1	7.6	7.0
Dyffrynnoedd Gwy ac Wysg	(125)	8.5	8.3	8.2	7.0	7.6

5. Casgliadau

- Er bod proffil oedran ymwelwyr yn gogwyddo tuag at y grŵp oedran 35-54, bu cynnydd yng nghyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed a ddaeth i Gymru yn 2016, gyda gostyngiad cyfatebol yng nghyfran yr ymwelwyr hŷn (55 oed a throsodd). Mae hyn i'w briodoli, o bosibl, i'r gwaith y mae Croeso Cymru yn ei wneud i farchnata twristiaeth gweithgareddau a hyrwyddo gwyliau gweithgareddau i ymwelwyr iau, y bwriedir iddo gynhyrchu refeniw o wyliau byr ychwanegol yng Nghymru, er ei bod yn bosibl bod y penderfyniad i ychwanegu safleoedd gweithgareddau awyr agored at y lleoliadau cyfweld (e.e. Bike Park Wales) wedi dylanwadu ar hyn yn rhannol. Mae'n bosibl bod ymgyrch Blwyddyn Antur 2016, a oedd yn anelu at ysbrydoli marchnadoedd targed i feddwl yn wahanol am Gymru ac annog pobl i ystyried Cymru fel cyrchfan antur hefyd wedi dylanwadu ar y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr iau – pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed a ddangosodd y lefelau uchaf o ymwybyddiaeth o'r ymgyrch. Cafodd bron un o bob tri o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2016 eu cymell i ymweld â Chymru er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu weithgareddau chwaraeon a dywedodd ychydig dros un o bob 10 mai dyna eu prif reswm dros ddod i Gymru. At hynny, mae cyfran yr ymwelwyr sy'n aros yn 2016 a gymerodd ran mewn chwaraeon a gweithgareddau antur megis beicio mynydd yn ystod eu hymweliad wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â 2013.
- Er bod ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn rhoi sgôr uchel iawn i Gymru fel lle i ymweld ag ef, mae'r astudiaeth yn nodi rhai meysydd lle y gellid gwella'r profiad a gwahaniaeth barn rhwng gwahanol rannau o'r wlad. Rhoddwyd sgorau sy'n is nag wyth allan o 10 ar gyfer glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus, ac ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer pobl ag anabledd, sy'n awgrymu bod lle i wella ar bob un o'r agweddau hyn. Ar ben hynny, hoffai'r rhai a oedd yn llai na brwdfrydig ynghylch eu hymweliad â Chymru (sef y 4% a roddodd sgôr a oedd yn llai nag wyth allan o 10 ar gyfer Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef) weld (ymhlith pethau eraill) bobl fwy croesawgar / cyfeillgar a chanol trefi mwy bywiog sy'n cynnig cyfleusterau siopa gwell.
- Mae Cymru yn perfformio'n dda o ran naws am le, gyda'r mwyafrif helaeth o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn ystyried bod rhyw agwedd ar eu hymweliad yn cynnwys nodweddion a odd yn unigryw i Gymru neu na allent fod wedi'u canfod yn unman arall (yn enwedig safleoedd treftadaeth ac atyniadau ymwelwyr Cymru). Ac eto, er bod y rhan fwyaf o ymwelwyr yn cytuno eu bod am i'w hymweliad â Chymru gynnig profiad sy'n unigryw i Gymru na allent ei gael yn unman arall, mae gwahaniaeth barn ynglŷn â pha mor bwysig ydyw eu bod yn gweld neu'n clywed y Gymraeg yn ystod eu hymweliad; roedd hyn yn bwysicach i ymwelwyr tramor nag ymwelwyr o'r DU.

- Mae arolwg 2016 yn nodi bod cyfran yr ymwelwyr sy'n aros sy'n bwyta allan yn ystod eu hymweliad â Chymru wedi cynyddu, sy'n gysylltiedig, o bosibl, â'r gyfran uwch o unigolion yn nosbarthiadau ABC1 sy'n ymweld â Chymru a sector lletygarwch bywiog. Mae canfyddiadau ymwelwyr o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig o ran bwyd a diod hefyd wedi gwella, ar y cyfan. Fodd bynnag, un maes lle nad yw'r galw yn cael ei ateb yw cynnig bwyd lleol neu fwyd o Gymru ar fwydlenni tafarndai a bwytai (yn enwedig yn rhanbarth Caerdydd, prifddinas Cymru) – nododd bron un o bob 10 ymwelydd sy'n aros a fwytodd allan tra ei fod ar wyliau yng Nghymru ei fod yn anfodlon ar yr agwedd hon ac mae hefyd yn cael ei grybwyll yn ddigymell gan rai ymwelwyr fel maes i'w wella. Byddai cynnwys mwy o gynnyrch lleol ar fwydlenni yn cael ei groesawu gan ymwelwyr sy'n aros a byddai'n gwella profiad yr ymwelydd â Chymru.
- Mae'r mwyafrif helaeth o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn casglu gwybodaeth am eu hymweliad â Chymru ymlaen llaw, gyda llawer o'r gweithgarwch casglu gwybodaeth hwn yn cael ei gyflawni ar-lein. Dros y tair blynedd diwethaf bu cynnydd sylweddol yn y defnydd y mae ymwelwyr yn ei wneud o sianeli gwybodaeth ar-lein wrth gynllunio eu hymweliad â Chymru, sy'n tanlinellu pwysigrwydd cynyddol darparu gwybodaeth glir a hygyrch ar-lein er mwyn helpu i gynllunio gwyliau a rhoi ysbrydoliaeth i ymwelwyr o ran yr hyn y dylent ei wneud a'i weld pan fyddant yng Nghymru.
- Fodd bynnag, mae ffynonellau gwybodaeth yn llai pwysig yn ystod yr ymweliad - nid yw bron bedwar o bob 10 ymwelydd sy'n aros o'r DU yn defnyddio unrhyw wybodaeth tra eu bod ar wyliau yng Nghymru. Ymhlith y rhai sy'n gwneud hynny, er bod y rhan fwyaf o ymwelwyr bellach yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth ar-lein cyn yr ymweliad, mae cryn nifer o ymwelwyr yn dal i ddefnyddio gwybodaeth all-lein pan fyddant ar wyliau. Yn benodol, ymddengys fod gan daflenni rôl i'w chwarae o hyd yn ystod yr ymweliad, a chawsant eu defnyddio fel ffynhonnell o wybodaeth gan tua un o bob pum ymwelydd sy'n aros tra eu bod ar wyliau yng Nghymru yn 2016. Hefyd, ychydig o ddefnydd a wneir o bamffledi a Chanolfannau Croeso cyn yr ymweliad. Fodd bynnag, mae ymwelwyr yn gwneud mwy o ddefnydd o Ganolfannau Croeso pan fyddant yng Nghymru.
- Tuedd amlwg arall yw'r defnydd cynyddol o wefannau archebu trydydd parti, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2013 (yn hytrach na bod ymwelwyr yn archebu llety yn uniongyrchol drwy gysylltu â darparwr y llety). Mae hyn yn tanseilio pa mor bwysig ydyw bod gweithredwyr llety yng Nghymru yn sicrhau bod ganddynt bresenoldeb cryf ar wefannau o'r fath yn y dyfodol.

Atodiad I: Rhestr fanwl o leoliadau'r arolwg

Tabl 24: Lleoliadau arolygu unigol yn ôl y rhanbarth yng Nghymru

Rhanbarth	Atyniad	Sefydliad cyfranogol partner (os yw'n gymwys)
Gogledd Cymru	Sw Môr Môn	
	Y Bala / Llyn Tegid	Parc Cenedlaethol Eryri
	Canol Tref Biwmares	
	Beddgelert	Parc Cenedlaethol Eryri
	Betws-y-Coed	
	Canol Tref Caernarfon	
	Canol Tref Conwy	
	Dolgellau	Parc Cenedlaethol Eryri
	Erddig	
	Terfynfa /Gorsaf Fferi Caergybi	Cyngor Sir Ynys Môn
	Llanberis	
	Promenâd Llandudno	
	Canol Tref Llangollen	
	Pont Ddŵr Pontcysyllte	
	Canol Tref Porthmadog	
Canolbarth Cymru	Promenâd y Rhyl	
	Parc Gwledig Gwepra	
	Canol Tref Wrecsam	
	Aberaeron	
	Promenâd Aberystwyth	
	Canol Tref Aberhonddu	
	Canol Tref Aberteifi	
	Pontarfynach	
	Canolfan Ymwelwyr Cwm Elan	
	Trefyclo / Llanandras	
	Llyn Efyrrwy	
	Machynlleth	
	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	
	Ceinewydd	
	Castell Powis	
	Rhaeadr Gwy	Cyngor Sir Powys
	Storey Arms	
	Canol Tref y Trallwng	

Rhanbarth	Atyniad	Sefydliad cyfranogol partner (os yw'n gymwys)
De-orllewin Cymru	Rhaeadr Aberdulais Parc Coedwig Afan Canol Tref Abergwaun Parc Margam Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Tŷ Newton, Dinefwr Parc Gwledig Penbre Rhosili, Penrhyn Gŵyr Canol Tref Tyddewi Canol Tref Dinbych-y-pysgod	
De-ddwyrain Cymru	Canol Tref y Fenni	Cyngor Sir Fynwy
	Glan Môr Ynys y Barri Pwll Mawr Amgueddfa Lofaol Cymru	
	Bike Park Wales	Grŵp Twristiaeth De-ddwyrain Cymru
	Gwaith Haearn Blaenafon Rheilffordd Fynydd Aberhonddu Parc Bryn Bach Baddonau Rhufeinig Caerllion Castell Caerffili Castell Caerdydd Canol Tref Cas-gwent Parc Gwledig Cosmeston Gyrfa Goedwig Cwmcarn	
	Castell Cyfarthfa	Grŵp Twristiaeth De-ddwyrain Cymru
	Parc Gwledig Cwm Dâr	
	Festival Park	Grŵp Twristiaeth De-ddwyrain Cymru
	Maenor Llancaeac Fawr Canolfan y Mileniwm / Bae Caerdydd	
	Canol Tref Trefynwy	Cyngor Sir Fynwy
	Amgueddfa Genedlaethol Cymru Cyngor Dinas Casnewydd	
	Pier Penarth	Grŵp Twristiaeth De-ddwyrain Cymru
	Promenâd Porthcawl Parc Treftadaeth y Rhondda	
	Profiad y Bathdy Brenhinol	Grŵp Twristiaeth De-ddwyrain Cymru
	Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru Abaty Tyndyrn Tŷ Tredegar	

Tabl 25: Lleoliadau arolygu unigol yn ôl y rhanbarth yng Nghymru

Rhanbarth	Cyfanswm y cyfweiliadau a gynhaliwyd yng Ngham 1	Cyfanswm y cyfweiliadau a gynhaliwyd yng Ngham 2
Gogledd Cymru	1,448	826
Canolbarth Cymru	907	473
De-orllewin Cymru	1,216	609
De-ddwyrain Cymru	3,081	1,556

Atodiad II: Holiadur arolwg Cam 1 (cyfweliadau wyneb yn wyneb)

beaufortresearch 2 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG	B01613-1 CROESO CYMRU - AROLWG YMWELWYR 2016 CAM 1 (TERFYNOL)	AT DDIBENION Y SWYDDFA YN UNIG Achos Pwynt (1-4) (5-6)	AMSER Y CYFWELIAD (7) 10.00am – 12pm 12.01pm – 2pm 2.01pm – 4pm 4.01pm – 6pm 1 2 3 4	DYDD Y CYFWELIAD (8) Dydd gwaith Penwythnos Gŵyl y Banc 1 2 3	TYWYDD (9) Heulwen Cymylog Glaw Arall 1 2 3 4
HOLWCH OEDOLION 16 OED NEU’N HŶN – DARLLENWCH YN UCHEL Helo, fy enw i yw Rwy’n gweithio i Beaufort Research, cwmni ymchwil y farchnad sy’n gweithio ar ran Croeso Cymru. Rydym yn cynnal arolwg byr, 5 munud o hyd, gyda’r ymwelwyr sydd yma heddiw. Caiff hwn ei ddilyn gan gyfweliad ffôn ymhenn rhai wythnosau. Bydd popeth a ddywedwch yn hollol gyfrinachol. A fydddech yn fodlon cymryd rhan yn y ddau gam o’r ymchwil? OS YN ANGENRHEIDIOL, RHOWCH SICRHAD NA FYDDWN YN CEISIO GWERTHU DIM A BOD Y CYFWELIADAU YN CAEL EU CWBLHAU YN UNOL Â CHOD YMARFER Y GYMDEITHAS YMCHWIL Y FARCHNAD BYDDWN – yn fodlon cymryd rhan → PARHEWCH NA FYDDWN – ddim yn fodlon cymryd rhan → DIOLCH A CHLOI					
S1 Yn gyntaf, ydych chi’n siarad Cymraeg? (10) OS FELLY ydy hynny? Ydw – yn rhugl..... 1 → S2 Ydw – ond ddim yn rhugl..... 2 → S2 Nac ydw..... 3 → S3	(OS YN YMWELWYR AROS S3 – CODAU 1 NEU 2) C1 Am sawl noson i gyd byddwch chi’n aros yng Nghymru? NODWCH (14-15)				
S2 (OS YN SIARAD CYMRAEG) Gallwn gynnal y cyfweliad hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg – pa un fyddai’n well gennych chi? (11) Saesneg..... 1 Cymraeg..... 2	(GOFYNNWCH I BAWB) C2 Ydych chi wedi dod ag anifail anwes gyda chi ar eich ymweliad heddiw? GALLWCH AMLGODIO (16) Ydw – ci/cŵn 1 Ydw – arall 2 Nac ydw 3				
S3 (GOFYNNWCH I BAWB) – CERDYN DANGOS A Pa un o’r rhain sy’n disgrifio orau’r rheswm dros eich ymweliad heddiw? (12) Rhan o wyliau, yn aros yng Nghymru oddi cartref..... 1 → C1 Rhan o wyliau yn ymweld â ffrindiau/teulu, yn aros yng Nghymru oddi cartref..... 2 → C1 Ymweliad dydd â/yng Nghymru – am wibdaith undydd / pleserdaith / ymweliad anarferol..... 3 → S4	C3 Ym mha wlad ydych chi’n byw? (17-20m) Cymru..... 1 Lloegr..... 2 Yr Alban..... 3 Gogledd Iwerddon..... 4 Gweriniaeth Iwerddon..... 5 Ffrainc..... 6 Yr Almaen..... 7 Yr Iseldiroedd..... 8 Gwlad Belg..... 9 Sbaen..... A Yr Eidal..... B UDA..... C Canada..... D Awstralia..... E Ewrop arall (nodwch) Y tu hwnt i Ewrop arall (nodwch)				
Ymweliad dydd â/yng Nghymru – am fusnes arferol neu siopa arferol..... 4 DIOLCH Ar fusnes..... 5 A I astudio..... 6 CHLOI Arall..... 7	GWIRIWCH Y CWOTÂU A PHARHEWCH				
S4 (OS YN YMWELYDD DYDD S3 – COD 3) Alla i holi, a fyddwch chi’n treulio tair awr neu fwy oddi cartref neu eich llety fel rhan o’ch ymweliad heddiw – gan gynnwys teithio? (13) Byddaf..... 1 → C2 Na fyddaf..... 2 → CLOI	C4 (OS YN BYW YNG NGHYMURU) Ym mha awdurdod lleol ydych chi’n byw? (21) Ynys Môn..... 1 Blaenau Gwent..... 2 Pen-y-bont ar Ogwr..... 3 Caerffili..... 4 Caerdydd..... 5 Ceredigion..... 6 Sir Gaerfyrddin..... 7 Merthyr Tudful..... C Sir Fynwy..... D Castell-nedd Port Talbot..... E Casnewydd..... F Sir Benfro..... G Powys..... H Rhondda Cynon Taf..... I				

	Conwy..... 8	Abertawe..... J
	Sir Ddinbych..... 9	Torfaen..... K
	Sir y Fflint..... A	Bro Morgannwg..... L
	Gwynedd..... B	Wrecsam..... M

(OS YN BYW Y TU ALLAN I GYMRU)		C11 Statws priodasol (33)					
C5	Ai dyma'ch ymweliad cyntaf â Chymru? (22)	Yn briod neu statws cyfatebol.....	1				
	Ie..... 1	Sengl, erioed wedi priodi.....	2				
	Na..... 2	Gweddw, wedi ysgaru neu wahanu....	3				
	Ddim yn gwybod/methu cofio..... 3						
(OS YN BYW YNG NGHYMRU)		C12 Oes unrhyw blant dan 15 oed yn eich cartref yr ydych yn gyfrifol amdanynt (fel rhiant, gwarchodwr cyfreithlon)? (34)					
C6	Ai dyma'ch ymweliad cyntaf â'r rhan hon o Gymru? (23)	Oes.....	1				
	Ie..... 1	Nac oes.....	2				
	Na..... 2						
	Ddim yn gwybod/methu cofio..... 3						
(GOFYNNWCH I BAWB) – CERDYN DANGOS B		C13 Statws gwaith (36)					
C7	Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich grŵp ar yr ymweliad hwn? (24)	Gweithio llawn amser (30+ awr yr wythnos).....	1				
	COD UNIGOL	Gweithio rhan amser (< 29 awr yr wythnos).....	2				
	Ymweld ar fy mhen fy hun..... 1	Addysg llawn amser.....	3				
	Cwpl..... 2	Wedi ymddeol.....	4				
	Teulu – gyda phlant bach..... 3	Gofalu am y cartref.....	5				
	Teulu – gyda phlant hŷn..... 4	Gofalwr llawn amser.....	6				
	Teulu – gyda phlant bach a hŷn..... 5	Hyfforddiant.....	7				
	Teulu – heb blant..... 6	Arall.....	8				
	Ffrindiau..... 7						
	Grŵp wedi'i drefnu/Cymdeithas..... 8						
	Arall..... 9						
C8 Sawl person sydd yn eich grŵp ymweliad heddiw, gan gynnwys chi eich hun? NODWCH NIFER YR OEDOLION A PHLANT		C14 Statws yn y cartref (37)					
<table><tr><th>OEDOLION</th><th>PLANT</th></tr><tr><td></td><td></td></tr></table>		OEDOLION	PLANT			DARLLENWCH YN UCHEL – Y Prif Enillydd	
OEDOLION	PLANT						
		Incwm yw'r aelod o'r cartref gyda'r incwm mwyaf, boed trwy gyflogaeth, pensiynau, buddiannau'r wladwriaeth, buddsoddiadau neu unrhyw ffynhonnell arall.					
		Prif Enillydd Incwm..... 1					
		Oedolyn arall (16 oed+)..... 2					
(25-27)		(28-30)					
C9 Rhyw (31)		C15 Swydd y Prif Enillydd Incwm (Swydd ddiwethaf os yw wedi ymddeol)					
Gwryw..... 1		Swydd					
Benyw..... 2		_____					
		Safle / gradd					

C10 Oed (32)		C16 Graddfa gymdeithasol (38)					
16-19..... 1 55-64..... 6		AB..... 1					
20-24..... 2 65-74..... 7		C1..... 2					
25-34..... 3 75-84..... 8		C2..... 3					
35-44..... 4 85+..... 9		DE..... 4					
45-54..... 5 Gwrthod ateb..... A							

CERDYN DANGOS C		CERDYN DANGOS E (44-48m)	
C17	Beth yw eich grŵp ethnig? (39)	C19	Ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw un o'r mathau hyn o hysbysebu, marchnata neu gyhoeddi ar gyfer Cymru cyn eich ymweliad heddiw?
	Gwyn Prydeinig..... 1		GALLWCH AMLGODIO
	Gwyn Cymreig..... 2		Hysbysebu teledu..... 1
	Gwyn arall..... 3		Rhaglen deledu..... 2
	Gwyn a Du Caribïaidd..... 4		Hysbysebu sinema..... 3
	Gwyn a Du Affricanaidd..... 5		Hysbysebu neu raglenni radio..... 4
	Gwyn ac Asiaidd..... 6		Wedi darllen erthygl mewn papur newydd neu gylchgrawn (print neu ar-lein).... 5
	Cymysg arall..... 7		Wedi gweld hysbyseb, taflen neu atodiad mewn papur newydd/cylchgrawn..... 6
	Indiaidd..... 8		Hysbysebion awyr agored (e.e. posteri, ochrau bysiau, meysydd awyr, gorsafoedd)... 7
	Pacistanaidd..... 9		Hysbysebion ar-lein (gan gynnwys hysbysebion symudol/llonydd)..... 8
	Bangladeshaid..... A		Cyfryngau cymdeithasol (ar-lein e.e. Facebook, Twitter ayyb.)..... 9
	Asiaidd arall..... B		Gwefan swyddogol croeso cymru..... A
	Caribïaidd..... C		Gwefannau eraill (e.e. TripAdvisor)..... B
	Affricanaidd..... D		Argymhelliad llafar / sgysiau gydag eraill..... C
	Du arall..... E		Yn y post / hysbyslen..... D
	Tsieineaidd..... F		Newyddlen e-bost..... E
	Arall..... G		Arall..... F
			Dim o'r rhain..... G
CERDYN DANGOS D			
C18	Os gennych chi neu rywun arall yn eich grŵp un o'r cyflyrau neu ddiffygion canlynol? Gallwch ddweud wrthyf y llythyren wrth ochr bob un os dymunwch. (40-43m)		
	GALLWCH AMLGODIO		
A	Diffyg symudedd (defnyddiwr cadair olwyn)..... 1		
B	Diffyg symudedd (ddim yn defnyddio cadair olwyn)... 2		
C	Dall..... 3		
D	Gwan eich golwg..... 4		
E	Byddar..... 5		
F	Colli clyw yn rhannol..... 6		
G	Anawsterau dysgu..... 7		
H	Salwch hir dymor (e.e. AIDS, arthritis, canser diabetes)..... 8		
	Dim o'r rhain..... 9		
DARLLENWCH YN UCHEL: Byddwn yn eich ffonio mewn rhai wythnosau i ofyn ychydig o gwestiynau eraill ynglŷn â'ch trip. Gaf i gymryd rhif ffôn eich tŷ ar gyfer y cyfweiliad dilynol? Gaf i gymryd eich rhif ffôn symudol hefyd, rhag ofn?			
NODWCH FANYLION CYSWLLT ISOD – DARLLENWCH Y RHAIN ETO I GADARNHAU ATGOFFWCH Y CAIFF Y MANYLION EU DEFNYDDIO AT BWRPAS YMCHWIL YN UNIG			
Enw: _____			
Rhif ffôn: Tŷ _____ FFÔN SYMUDOL _____			
OS O DRAMOR – NODWCH Y WLAD (A'R DALAITH OS YN DOD O'R UDA): _____			
DIOLCH AM EICH AMSER – GWNAWN EICH FFONIO YMHEN RHAI WYTHNOSAU – DOSBARTHWCH DAFLEN			
<i>Datganiad y Cyfwelydd:</i> Yr wyf yn datgan fy mod wedi cynnal y cyfweiliad hwn wyneb yn wyneb â'r person a enwyd uchod (nad yw'n hysbys i mi) yn unol â'ch cyfarwyddyd:			
Llofnod		Dyddiad y Cyfweiliad (dd/mm)	
		(49)(50)(51)(52)	
NODWCH EICH RHIF CYFWELYDD —————>		(53)	(54)
B01613	Cafwyd cwmni	Do 1	Llofnod y goruchwyliwr:
		Na ddo 2	CWOTA (57)
			DIWRNOD DU 1
			AROS DU 2
			AROS DRAMOR 3
			DIWRNOD DRAMOR 4

Atodiad III: Holiadur arolwg Cam 2 (cyfweiliadau dros y ffôn)

B01613-2

Arolwg Ymwelwyr Croeso Cymru Cam 2

Holiadur Arolwg Ffôn (TERFYNOL)

DARLLENWCH YN UCHEL: Helo, fy enw i yw ____ ac rwy'n ffonio o Beaufort Research. Diolch am gymryd rhan mewn cyfweiliad byr ar gyfer Croeso Cymru ychydig wythnosau yn ôl yn _____. Nawr eich bod chi wedi dychwelyd adref, rydym yn ffonio i gwblhau'r cyfweiliad dilynol ynglŷn â'ch ymweliad yng Nghymru. Bydd hyn yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau.

OS YN ANGENRHEIDIOL YCHWANEGWCH: Bydd popeth a ddywedwch chi wrthym ni'n cael ei gadw'n gyfrinachol. Mae'r arolwg yn cael ei gynnal yn unol â Chod Ymarfer y Gymdeithas Ymchwil y Farchnad.

GWIRIWCH EICH BOD YN SIARAD Â'R UNIGOLYN CYWIR. OS NA FEDR GYMRYD RHAN AR UNWAITH, TREFNWCH APWYNTIAD

S1: Gaf i wirio, a hoffech chi gwblhau'r cyfweiliad hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg?

01: Saesneg

02: Cymraeg

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR SY'N AROS (O'R SAMPL)

C1. Sawl gwaith yn y tair blynedd ddiwethaf ydych chi wedi mynd ar wyliau neu am sbel hamddenol yng Nghymru, gan gynnwys y daith ddiweddar pan wnaethom ni gyfweld â chi?

DARLLENWCH YN UCHEL YN ÔL YR ANGEN

01: Unwaith mewn tair blynedd

02: 2 – 3 gwaith

03: 4 – 6 gwaith

04: 7 – 10 gwaith

05: Mwy na 10 gwaith

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR DIWRNOD (O'R SAMPL)

C2. Sawl gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf ydych chi wedi cymryd gwibdaith undydd yng Nghymru, gan gynnwys y daith ddiweddar pan wnaethom ni gyfweld â chi?

DARLLENWCH YN UCHEL YN ÔL YR ANGEN

01: Unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

02: 2 – 3 gwaith

03: 4 – 6 gwaith

04: 7 – 10 gwaith

05: 11 – 20 gwaith

06: Mwy nag 20 gwaith

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR SY’N AROS (O’R SAMPL)

C3 Pa fath o daith oedd eich taith ddiweddar i Gymru/ yng Nghymru?

DARLLENWCH YN UCHEL

01: Prif wyliau'r flwyddyn

02: Ail wyliau / gwyliau ychwanegol

03: Gwyliau byr

04: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR SY’N AROS (O’R SAMPL)

C4 A wnaethoch chi aros mewn unrhyw wledydd eraill (yn Ewrop) ar wahân i Gymru ar eich taith ddiweddar?

01: Do – Lloegr

02: Do – Yr Alban

03: Do – Gogledd Iwerddon

04: Do – Iwerddon

05: Do – gwlad/gwledydd Ewropeaidd eraill (nodwch)

06: Naddo, aros yng Nghymru'n unig

GOFYNNWCH OS DO YN C4

C5 Am sawl noson gwnaethoch chi aros mewn unrhyw wlad arall ar wahân i Gymru yn ystod eich taith ddiweddar?

YSGRIFENWCH Y NIFER

GOFYNNWCH OS OES YN C4

C6 Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i'ch taith?

DARLLENWCH YN UCHEL – COD UNIGOL

01: Cymru oedd prif gyrchfan (destination) fy ngwyliau

02: Gwlad arall y DU oedd prif gyrchfan (destination) fy ngwyliau

03: Gwlad Ewropeaidd arall oedd prif gyrchfan (destination) fy ngwyliau

04: Teithiais o gwmpas y DU ac Ewrop, gan ymweld â nifer o wahanol wledydd

GOFYNNWCH WRTH BOB YMWELWYR SY’N AROS (O’R SAMPL)

C7 Ac wrth feddwl am eich amser yng Nghymru, a arhosoch chi mewn un lle yn unig yn ystod eich taith ddiweddar neu a wnaethoch chi aros dros nos mewn sawl lle neu deithio o gwmpas y wlad?

01: Aros mewn un lle

02: Aros dros nos mewn sawl lle \ teithio o gwmpas

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR TRAMOR (O'R SAMPL)

C8. Beth oedd y prif ddull o drafnidiaeth wnaethoch chi eu defnyddio i gyrraedd Prydain?

COFNODI MANYLION YR ORSAF / PORTHLADD FFERI / MAES AWYR

01: Trên – gan gynnwys Twnnel y Sianel (nodwch yr orsaf gyrraedd)

02: Fferi – teithio mewn car (nodwch y porthladd cyrraedd)

03: Fferi – teithio ar droed (nodwch y porthladd cyrraedd)

04: Awyren (nodwch y maes awyr cyrraedd)

05: Arall (nodwch sut a ble gwnaethon gyrraedd)

GOFYNNWCH OS YN YMWELWR DIWRNOD NEU'N YMWELWYR AROS O TU ALLAN I GYMRU (O'R SAMPL)

C9 Beth oedd eich prif ddull o drafnidiaeth i gyrraedd Cymru?

DARLLENWCH YN UCHEL YN ÔL YR ANGEN

01: Car neu fan breifat

02: Car neu fan wedi llogi

03: Trên

04: Bws neu goets gyhoeddus

05: Gwibdaith/taith dywys ar fws/goets breifat

06: Beic

07: Beic modur

08: Ar droed

09: Tacsî

10: Bws neu dacsî dŵr

11: Cwch neu iot

12: Fan wersylla neu gerbyd cludo criw

13: Fferi – teithiwr â char

14: Fferi – teithiwr ar droed

15: Awyren (nodwch y maes awyr cyrraedd)

16: Arall (nodwch sut a ble gwnaethon gyrraedd)

GOFYNNWCH I BAWB

C10. Pa ddulliau o drafnidiaeth a ddefnyddiwyd gennych i fynd o amgylch Cymru [OS YN AROS] / i fynd i [ENW'R SAFLE] ar y diwrnod a gyfwelwyd gennym i chi [OS YN YMWELWYR DYDD]?

DARLLENWCH YN UCHEL YN ÔL YR ANGEN

01: Car neu fan breifat

02: Car neu fan wedi llogi

03: Trên

04: Bws neu goets gyhoeddus

05: Gwibdaith/taith tywys ar fws/goets breifat

06: Beic

07: Beic modur

08: Ar droed

09: Tacsî

10: Bws neu dacsî dŵr

11: Cwch neu iot

12: Fan wersylla neu gerbyd cludo criw

13: Arall – (nodwch)

GOFYNNWCH I BAWB

C11. Pa rai o'r canlynol oedd eich rhesymau dros ymweld â Chymru [OS YN BYW TU ALLAN I GYMRU] / ymweld y rhan o Gymru lle rydym yn cyfweld chi ychydig wythnosau yn ôl [OS BYW YNG NGHYMRU]?

DARLLENWCH YN UCHEL – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

01: I gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon (e.e. cerdded, beicio, pysgota ayyb)

02: I fynychu digwyddiad / cyngerdd / perfformiad / digwyddiad chwaraeon

03: I fwynhau'r dirwedd / cefn gwlad / traeth

04: I ymweld â lleoedd / safleoedd hanesyddol / safleoedd crefyddol / atyniadau penodol / golygfeydd

05: Ar gyfer ymweliad byr i ddinas / tref fawr

06: I siopa

07: I ymweld â ffrindiau neu berthnasau (gan gynnwys digwyddiadau arbennig megis priodasau a seremonïau graddio)

08: I ymweld â sba neu gael triniaeth harddwch neu iechyd

09: Oherwydd achau (genealogy) / i olrhain fy hynafiaid (ancestry)

10: Arall – (nodwch)

OS OES MWY NAG UN WEDI GODIO YN C11 GOFYNNWCH C12

C12. A pha un oedd eich prif reswm dros

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: I gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon (e.e. cerdded, beicio, pysgota ayyb)

02: I fynychu digwyddiad / cyngerdd / perfformiad / digwyddiad chwaraeon

03: I fwynhau'r dirwedd / cefn gwlad / traeth

04: I ymweld â lleoedd / safleoedd hanesyddol / safleoedd crefyddol / atyniadau penodol / golygfeydd

05: Ar gyfer ymweliad byr i ddinas / tref fawr

06: I siopa

07: I ymweld â ffrindiau neu berthnasau (gan gynnwys digwyddiadau arbennig megis priodasau a seremonïau graddio)

08: I ymweld â sba neu gael triniaeth harddwch neu iechyd

09: Oherwydd achau (genealogy) / i olrhain fy hynafiaid (ancestry)

GOFYNNWCH OS CÔD 1 YN C11

C13 Pa un o'r canlynol wnaethoch gwblhau yn ystod eich taith? **HOLWCH YN FANWL** Unrhyw weithgareddau awyr agored neu chwaraeon eraill?

DARLLENWCH YN UCHEL – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Cerdded (llai na dwy filltir)
- 02: Cerdded (mwy na dwy filltir)
- 03: Beicio
- 04: Beicio mynydd
- 05: Pysgota – môr
- 06: Pysgota – bras / gêrn
- 07: Golff
- 08: Marchogaeth / merlota
- 09: Chwaraeon antur, e.e. canwio, rafftio, dringo neu fynydda
- 10: Chwaraeon dŵr
- 11: Taith ar gamlas / cwch
- 12: Nofio (awyr agored neu dan do)
- 13: Chwaraeon cae, e.e. hela / saethu
- 14: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS CÔD 2 YN C11

C14 Pa un o'r canlynol wnaethoch chi eu mynychu yn ystod eich taith? **HOLWCH YN FANWL**. Unrhyw ddigwyddiadau, cyngherddau neu ddigwyddiadau chwaraeon eraill?

DARLLENWCH YN UCHEL – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Digwyddiad chwaraeon
- 02: Cyngerdd fyw
- 03: Perfformiad theatr neu sinema
- 04: Y celfyddydau / gŵyl ddiwylliannol / Eisteddfod
- 05: Gŵyl gerdd
- 06: Gŵyl fwyd / diod
- 07: Digwyddiad gweithgaredd, e.e. gŵyl gerdded, ras feicio, ras redeg elusen
- 08: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS CÔD 3 YN C11

C15a Pa un o'r canlynol wnaethoch chi eu gwneud yn ystod eich taith? HOLWCH YN FANWL Unrhyw ffyrdd eraill o fwynhau'r dirwedd / cefn gwlad / traethau?

DARLLENWCH YN UCHEL – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Ymweld â'r traeth
- 02: Ymweld â pharciau gwledig / coedwigoedd
- 03: Ymweld ag atyniad bywyd gwylt / gwarchodfa natur
- 04: Ymweld â gerddi
- 05: Taith gerdded dywysedig
- 06: Gwyllo bywyd gwylt
- 07: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS WEDI YMWELD A'R TRAETH YN C15A

C15b Mae ambell draeth yng Nghymru wedi ennill gwobrau am ansawdd a glendid, megis Gwobr y Faner Las, Gwobr Arfordir Glas a Gwobr Glan y Môr. Pa mor bwysig yw'r gwobrau hyn i chi pan fyddwch yn dewis traeth i'w ymweld?

DARLLENWCH YN UCHEL

- 01: Pwysig iawn
- 02: Gweddol bwysig
- 03: Ddim yn bwysig iawn
- 04: Ddim yn bwysig o gwbl

GOFYNNWCH OS CÔD 4 NEU 5 YN C11

C16 Pa un o'r canlynol gwnaethoch chi eu hymweld yn ystod eich taith? HOLWCH YN FANWL Unrhyw leoedd, safleoedd hanesyddol, safleoedd crefyddol neu atyniadau eraill?

DARLLENWCH YN UCHEL – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth
- 02: Arddangosfa neu oriel gelf
- 03: Castell neu atyniad hanesyddol arall
- 04: Safle crefyddol (e.e. eglwys, eglwys gadeiriol, mynachlog)
- 05: Atyniad treftadaeth ddiwydiannol (e.e. melin, ffatri)
- 06: Atyniad anifeiliaid (e.e. fferm, sw)
- 07: Atyniad natur (e.e. gerddi)
- 08: Canolfan wyddoniaeth / dechnoleg
- 09: Rheilffordd olygfaol / ager / hanesyddol
- 10: Parc thema / difyrion
- 11: Lleoliad sy'n gysylltiedig â chyfres deledu, ffilm neu lenyddiaeth
- 12: Ymweliadau cyffredinol
- 13: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS CÔD 1-10 YN C16

C17 Gan feddwl am yr atyniadau gwnaethoch ymweld â nhw yn ystod eich taith yng Nghymru, pa mor fodlon oeddech chi ar yr agweddau canlynol? Defnyddiwch raddfa o un i ddeg ble mae un yn golygu anfodlon iawn a deg yn golygu bodlon iawn.

DARLLENWCH YN UCHEL:

- 01: Eich mwynhad cyffredinol
- 02: Y gwasanaeth gwnaethoch ei dderbyn yno
- 03: Gwerth am arian
- 04: Safon y cyfleusterau
- 05: Yr amrywiaeth o atyniadau

- 01: - Anfodlon iawn
- 02:
- 03:
- 04:
- 05:
- 06:
- 07:
- 08:
- 09:
- 10: - Bodlon iawn

GOFYNNWCH I BAWB

C18 A wnaethoch chi fwyta allan yn ystod eich taith i Gymru?

- 01: Do
- 02: Naddo

GOFYNNWCH OS DO YN C18

C19 Pa mor fodlon oeddech chi gyda'ch profiad o fwyta allan yng Nghymru ar raddfa o un i ddeg ble mae un yn golygu anfodlon iawn a deg yn golygu bodlon iawn.

DARLLENWCH YN UCHEL:

- 01: Ansawdd y bwyd
- 02: Gwasanaeth
- 03: Gwerth am arian
- 04: Defnydd o fwydydd lleol neu Gymreig ar y fwydlen
- 05: Yr amrywiaeth o lefydd i fwyta

- 01: - Anfodlon iawn
- 02:
- 03:
- 04:
- 05:
- 06:
- 07:
- 08:
- 09:

10: - Bodlon iawn

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR SY’N AROS (O’R SAMPL)

C20 Yn ystod eich ymweliad â Chymru, pa fath o lety ddefnyddioch chi'n bennaf?

DARLLENWCH YN UCHEL YN ÔL YR ANGEN

01: Gwesty

02: Gwely a brecwast neu dŷ llety

03: Ffermdy

04: Carafán (teithiol / fan wersylla / cartref modur)

05: Mewn carafán sefydlog wedi'i rentu

06: Yn eich carafán sefydlog eich hun

07: Gwersylla

08: Hunanarlwyd mewn tŷ, fila, bwthyn, rhandy neu fflat wedi'i rhentu

09: Rhandy/fflat â gwasanaeth

10: Cartref ffrind / teulu

11: Cartref rhywun arall ar sail fasnachol (e.e. Airbnb)

12: Eich ail gartref / cyfran gyfnodol eich hun (time share)

13: Gwersyll/pentref gwyliau

14: Hostel

15: Llety amgen (alternative), e.e. Iwrt, Tipi, Tŷ Pen Coed, Cwt, EcoPod ayyb

16: Cwch

17: Llong fordeithio

18: Llety prifysgol

19: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR SY’N AROS (O’R SAMPL)

C21 Ym mha Awdurdod Lleol gwnaethoch chi aros ynddo yn bennaf yng Nghymru?

CYFARWYDDYD: OS DDIM YN GWYBOD YR AWDURDOD LLEOL, CODIWCH 'DDIM YN GWYBOD' A BYDD Y SGRÎN NESAF YN GOFYN AM ENW'R DREF NEU'R PENTREF

01: Ynys Môn

02: Blaenau Gwent

03: Pen-y-bont ar Ogwr

04: Caerffili

05: Caerdydd

06: Ceredigion

07: Sir Gaerfyrddin

08: Conwy

09: Sir Ddinbych

10: Sir y Fflint

11: Gwynedd

12: Merthyr Tudful

13: Sir Fynwy

14: Castell-Nedd Port Talbot

15: Casnewydd

16: Sir Benfro

17: Powys

- 18: Rhondda Cynon Taf
- 19: Abertawe
- 20: Torfaen
- 21: Bro Morgannwg
- 22: Wrecsam

GOFYNNWCH OS DDIM YN GWYBOD YN C21a

C21b A fedrwch chi ddweud wrthyf enw'r dref neu'r pentref ble'r arhosoch chi'n bennaf yng Nghymru?

NODWCH

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR SY’N AROS (O’R SAMPL)

C22 Gan feddwl am y llety gwnaethoch aros ynddo yn ystod eich taith i Gymru, pa mor fodlon oeddech chi gyda phob un o'r canlynol? Defnyddiwch raddfa o un i ddeg ble mae un yn golygu anfodlon iawn a deg yn golygu bodlon iawn.

DARLLENWCH YN UCHEL:

- 01: Ansawdd
- 02: Gwasanaeth
- 03: Gwerth am arian
- 04: Boddhad cyffredinol

- 01: - Anfodlon iawn
- 02:
- 03:
- 04:
- 05:
- 06:
- 07:
- 08:
- 09:
- 10: - Bodlon iawn

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR SY’N AROS (O’R SAMPL)

C23 Sut gwnaethoch chi archebu eich llety neu becyn?

PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU

- 01: Yn uniongyrchol â'r darparwr (ffôn / e-bost / gwefan y darparwr)
- 02: Trwy wefan llety trydydd parti (e.e. Booking.com, Expedia, LateRooms.com)
- 03: Trwy wefan gynigion (e.e. Groupon, KGB ayyb)
- 04: Trwy wefan croeso.cymru / visitwales.com
- 05: Trwy asiant teithio neu drefnydd teithiau
- 06: Trwy ganolfan groeso
- 07: Jest troi fyny ar y diwrnod
- 08: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS YN YMWELWYR SY’N AROS (O’R SAMPL) AC WEDI ARCHEBU YMLAEN LLAW

C24 Ac a wnaethoch chi.....?

DARLLENWCH YN UCHEL

- 01: Drefnu llety a theithio gyda'i gilydd trwy'r un darparwr fel rhan o becyn
- 02: Drefnu llety a theithio ar wahân gyda gwahanol ddarparwyr

GOFYNNWCH I BAWB

C25 Wrth gynllunio a chasglu gwybodaeth ar gyfer eich taith ddiweddar i Gymru, a wnaethoch chi ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth ar-lein, ddim ar-lein, neu'r ddau? Wrth ddweud ddim ar-lein, rydym yn golygu ffynonellau gwybodaeth nad oedd ar gael ar y rhyngwyd.

DARLLENWCH YN UCHEL

- 01: Ffynonellau ar-lein yn unig (e.e. gwefannau, apiau)
- 02: Ffynonellau ddim ar-lein yn unig (e.e. pamffledi, taflenni)
- 03: Ffynonellau ar-lein ac ddim ar-lein
- 04: Heb ddefnyddio unrhyw wybodaeth i gynllunio

GOFYNNWCH OS DEFNYDDIR FFYNONELLAU AR-LEIN (1 NEU 3 YN C25)

C26 A wnaethoch chi ddefnyddio..?

DARLLENWCH YN UCHEL

- 01: Gwefannau
- 02: Apiau
- 03: E-bost
- 04: Cyfryngau cymdeithasol
- 05: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS DEFNYDDIR GWEFAN YN C26

C27 A fedrwch chi gofio pa fath o wefannau gwnaethoch chi neu eich parti eu defnyddio i gynllunio'ch taith cyn i chi fynd?

PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Peiriannau chwilio, e.e. Google – ond ni allaf gofio at ba wefannau ces i fy nghyfeirio
- 02: Gwefan fusnes twristiaeth, e.e. darparwr llety, atyniad
- 03: Croeso Cymru / bwrdd croeso cenedlaethol
- 04: Awdurdod rhanbarthol neu leol
- 05: Gwefan adolygiadau, e.e. TripAdvisor, Google Places
- 06: Gwefan bwcio llety, e.e. LateRooms.com, Booking.com, Expedia, Hotels.com
- 07: Gwefan gynigion, e.e. Groupon, MoneySavingExpert.com
- 08: Gwefan ddiwrnodau allan, e.e. DayOutWithThekids.co.uk, DaysOut.co.uk
- 09: Gwefan gyfarwyddo, e.e. Google Maps, AA Route Planner
- 10: Facebook / blog / cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol
- 11: Gwefan ganllaw bwyta
- 12: Papurau newyddion ar-lein
- 13: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS DDEFNYDDIR FFYNONELLAU AII-LEIN (CODAU 2 NEU 3 YN C26)

C28 Pa ffynonellau gwybodaeth sydd ddim ar-lein gwnaethoch chi neu eich parti eu defnyddio cyn i chi fynd?

PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Siarad â ffrindiau / perthnasau / cydweithwyr
- 02: Pamffled o Groeso Cymru / bwrdd croeso cenedlaethol
- 03: Pamffled o awdurdod lleol
- 04: Taflenni
- 05: Papur newydd neu gylchgrawn
- 06: Llyfr tywys
- 07: Rhaglen deithio
- 08: Hysbyseb ar y teledu, radio neu yn y sinema
- 09: Siarad â threfnydd teithiau
- 10: Siarad â darparwr llety
- 11: Canolfan Groeso – dros y ffôn neu e-bost
- 12: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH I BAWB

C29 Gan feddwl yn awr am y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddioch chi yn ystod eich taith i Gymru, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth ddefnyddioch chi neu eich parti?

DARLLENWCH YN UCHEL

- 01: Ffynonellau ar-lein yn unig (e.e. gwefannau, apiau)
- 02: Ffynonellau ddim ar-lein yn unig (e.e. pamffledi, taflenni)
- 03: Ffynonellau ar-lein ac ddim ar-lein
- 04: Heb ddefnyddio unrhyw wybodaeth yn ystod ein taith

GOFYNNWCH OS DEFNYDDIR FFYNONELLAU AR-LEIN (1 NEU 3 YN Q29)

C30 Sut gwnaethoch chi neu eich parti gael mynediad at wybodaeth ar-lein yn ystod eich taith?

PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Ffôn symudol neu ddyfais law arall
- 02: Eich gliniadur eich hun
- 03: Cyfrifiadur tabled
- 04: Gliniadur neu gyfrifiadur yn nhŷ ffrind neu berthynas
- 05: Cyfrifiadur rhywle arall (e.e. llety, caffi rhynggrwyd, canolfan groeso, llyfrgell)
- 06: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS DEFNYDDIR FFYNONELLAU AR-LEIN (1 NEU 3 YN Q29)

C31 A wnaethoch chi ddefnyddio..?

DARLLENWCH YN UCHEL – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Gwefannau
- 02: Apiau
- 03: E-bost
- 04: Cyfryngau cymdeithasol
- 05: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS DEFNYDDIR GWEFAN YN C31

C32 A fedrwch chi gofio pa fath o wefannau gwnaethoch chi neu eich parti eu defnyddio yn ystod eich taith?

PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Peiriannau chwilio, e.e. Google – ond ni allaf gofio at ba wefannau ces i fy nghyfeirio
- 02: Gwefan fusnes twristiaeth, e.e. darparwr llety, atyniad
- 03: Croeso Cymru / bwrdd croeso cenedlaethol
- 04: Awdurdod rhanbarthol neu leol
- 05: Gwefan adolygiadau, e.e. TripAdvisor, Google Places
- 06: Gwefan bwcio llety, e.e. LateRooms.com, Booking.com, Expedia, Hotels.com
- 07: Gwefan gynigion, e.e. Groupon, MoneySavingExpert.com
- 08: Gwefan ddiwrnodau allan, e.e. DayOutWithTheKids.co.uk, DaysOut.co.uk
- 09: Gwefan gyfarwyddo, e.e. Google Maps, AA Route Planner
- 10: Facebook / blog / cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol
- 11: Gwefan ganllaw bwyta
- 12: Papurau newyddion ar-lein
- 13: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH OS COD 2 NEU 3 YN Q29

C33 Pa ffynonellau gwybodaeth sydd ddim ar-lein wnaethoch chi neu eich parti eu defnyddio yn ystod eich taith?

PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Siarad â gwesteiywyr (ffrindiau / perthnasau)
- 02: Cyngor gan ddarparwr y llety
- 03: Canolfan Groeso
- 04: Pamffled o Groeso Cymru / bwrdd croeso cenedlaethol
- 05: Pamffled o fwrdd croeso lleol
- 06: Taflenni
- 07: Papur newyddion neu gylchgrawn lleol
- 08: Llyfr tywys
- 09: Arall (nodwch)

GOFYNNWCH I BAWB

C34 Ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebu, marchnata neu gyhoeddusrwydd ar gyfer 'Blwyddyn Antur 2016'?

- 01: Ydw
- 02: Nac ydw

GOFYNNWCH OS YDW YN C34

C35 I ba raddau gwnaeth 'Blwyddyn Antur 2016' ddylanwadu ar eich penderfyniad i ymweld â Chymru? Rhowch rif rhwng un a deg ble mae un yn golygu 'Ni chafodd ddylanwad o gwbl' a deg yn golygu 'Dyna oedd yr unig reswm y gwnes i ymweld â Chymru'

- 01: - Dim dylanwad o gwbl
- 02:
- 03:
- 04:
- 05:
- 06:
- 07:
- 08:
- 09:
- 10: - Yr unig reswm y gwnes i ymweld

GOFYNNWCH I BAWB

C36 Pa mor bwysig yw hi i chi fod y llety yr ydych yn ei ddewis yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy? Wrth ddweud 'cynaliadwy', rydym yn golygu ei fod yn diogelu'r amgylchedd ac yn fasnach deg.

DARLLENWCH YN UCHEL

- 01: Pwysig iawn
- 02: Eithaf pwysig
- 03: Ddim yn bwysig iawn
- 04: Ddim yn bwysig o gwbl

GOFYNNWCH I BAWB

C37 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: *'Mae Cymru'n cynrychioli cyrchfan twristiaeth gynaliadwy ar gyfer gwyliau a seibiannau'?* **DARLLENWCH YN UCHEL**

- 01: Cytuno'n gryf
- 02: Cytuno ychydig
- 03: Anghytuno ychydig
- 04: Anghytuno'n gryf

GOFYNNWCH I BAWB

C38 Gan feddwl am eich ymweliad diweddar â Chymru, a wnaeth unrhyw un o'r canlynol gynnwys agweddau neu nodweddion oedd yn nodweddiadol Cymreig neu a oedd ganddynt gymeriad lleol penodol?

DARLLENWCH YN UCHEL – CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

- 01: Unrhyw lety gwnaethoch ei ddefnyddio
- 02: Bwyd a diod
- 03: Digwyddiadau
- 04: Atyniadau ymwelwyr
- 05: Safleoedd treftadaeth
- 06: Gweithgareddau awyr agored
- 07: Unrhyw beth arall (nodwch)

49: Dim o'r rhain

GOFYNNWCH I BAWB

C39 A pha mor bwysig, neu beidio, yw hi i chi fod..?

- 01: Eich taith i Gymru'n rhoi profiad i chi sy'n unigryw i Gymru ac ni allech gael yr un peth rhywle arall?
- 02: Rydych yn gallu gweld neu glywed yr iaith Gymraeg yn ystod eich ymweliad

DARLLENWCH YN UCHEL:

- 01: Pwysig iawn
- 02: Eithaf pwysig
- 03: Ddim yn bwysig iawn
- 04: Ddim yn bwysig o gwbl

GOFYNNWCH I BAWB

C40 Pa mor fodlon oeddech chi ag agweddau canlynol eich taith i Gymru ar raddfa o un i ddeg, ble mae un yn golygu anfodlon iawn a deg yn golygu bodlon iawn?

CYFARWYDDYD: codiwch 'ddim yn berthnasol' os na fydd rhai yn berthnasol.

DARLLENWCH YN UCHEL:

- 01: Gwerth da am arian ar y cyfan
- 02: Lleuedd i ymweld â nhw yng Nghymru
- 03: Ansawdd yr amgylchedd naturiol
- 04: Siopa
- 05: Ymdeimlad o groeso
- 06: Glendid y strydoedd
- 07: Teimlo'n ddiogel
- 08: Glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus
- 09: Safon yr arwyddion i dwristiaid
- 10: Glendid y traethau
- 11: Ansawdd dŵr y môr
- 12: Hygyrchedd ar gyfer pobl ag anabledd / salwch hirdymor
- 13: Pa mor groesawgar tuag at anifeiliaid anwes ydoedd
- 14: Ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus

01: - Anfodlon iawn

02:

03:

04:

05:

06:

07:

08:

09:

10: - Bodlon iawn

GOFYNNWCH I BAWB

C40 Pa mor fodlon oeddech chi ag agweddau canlynol eich taith i Gymru ar raddfa o un i ddeg, ble mae un yn golygu anfodlon iawn a deg yn golygu bodlon iawn?

CYFARWYDDYD: codiwch 'ddim yn berthnasol' os na fydd rhai yn berthnasol.

DARLLENWCH YN UCHEL: Cymru ar y cyfan fel lle i ymweld ag ef

01: - Anfodlon iawn

02:

03:

04:

05:

06:

07:

08:

09:

10: - Bodlon iawn

GOFYNNWCH OS COD 1-7 AR GYFER DATGANIAD - 'CYMRU CYFFREDINOL FEL LLE I YMWELD Â'

C41 Pam rhoesoch chi sgôr o pan ofynwyd i chi am eich profiad cyffredinol yn ystod eich taith ddiweddar? Beth fyddai wedi gwella eich profiad neu eich annog i roi sgôr uwch i Gymru? HOLWCH YN FANWL – Unrhyw beth arall?

COFNODWCH AIR AM AIR

GOFYNNWCH I BAWB

C42 Ar y cyfan, fyddech chi'n dweud bod eich taith i Gymru....?

DARLLENWCH YN UCHEL

- 01: Llawer yn well na'r disgwyl
- 02: Ychydig yn well na'r disgwyl
- 03: Wedi cwrdd â'ch disgwyliadau
- 04: Ddim cystal ag y gwnaethoch ddisgwyl
- 05: Dim byd fel ag y gwnaethoch ddisgwyl

GOFYNNWCH I BAWB

C43 Pa mor debygol ydych chi i ymweld â Chymru eto yn y blynyddoedd nesaf?

DARLLENWCH YN UCHEL

- 01: Bendant
- 02: Tebygol
- 03: Annhebygol
- 04: Bendant ddim

GOFYNNWCH I BAWB

C44 A fydddech chi'n argymhell Cymru fel lle i ffrind neu berthynas ymweld ag ef?

DARLLENWCH YN UCHEL

01: Bendant

02: Tebygol

03: Annhebygol

04: Bendant ddim

GOFYNNWCH I BAWB

C45 Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau eraill hoffech chi eu gwneud ynglŷn â'ch taith i Gymru?

COFNODWCH AIR AM AIR

GOFYNNWCH I BAWB

C46 A fydddech yn fodlon i Groeso Cymru neu bartneriaid dewisedig gysylltu â chi eto i gymryd rhan mewn ymchwil bellach?

Eto, bydd yr holl wybodaeth a rowch chi'n hollol gyfrinachol ac, wrth gytuno yn awr, ni fyddwch yn ymrwymo i gymryd rhan mewn cyfweiliadau pellach pan fyddwn yn cysylltu â chi eto.

01: Byddwn – yn fodlon i chi ailgysylltu â mi

02: Na fyddwn

Diolch i chi am roi o'ch amser ac am eich cydweithrediad.

I gadarnhau, fy enw yw ____ ac rwy'n ffonio o Beaufort Research, a chynhaliwyd yr arolwg hwn yn unol â chod ymarfer y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.

Os hoffech wirio ein cymwysterau, gallwch ffonio'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad am ddim ar 0500 39 69 99.

Diolch eto a hwyl fawr.